



Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

2013 dccc 4

Local Government Democracy (Wales) Act 2013

2013 anaw 4

Lluniwyd Nodiadau Esboniadol yn gymorth i ddeall y Ddeddf hon ac maent ar gael ar wahân.

Explanatory Notes have been produced to assist in the understanding of this Act and are available separately.

£16.00



Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

2013 dccc 4

Local Government Democracy (Wales) Act 2013

2013 anaw 4



Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

2013 dccc 4

CYNNWYS

RHAN 1

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg

RHAN 2

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Parhad ac enw

2 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Statws

3 Statws

Aelodau

4 Aelodaeth

5 Deiliadaeth

Trafodion

6 Trafodion

7 Y sêl a dilysrwydd dogfennau



Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013

2013 anaw 4

CONTENTS

PART 1

INTRODUCTION

- 1 Overview

PART 2

LOCAL DEMOCRACY AND BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

Continuation and name

- 2 Local Democracy and Boundary Commission for Wales

Status

- 3 Status

Members

- 4 Membership

- 5 Tenure

Proceedings

- 6 Proceedings

- 7 Seal and validity of documents

Staff, arbenigwyr a chomisiynwyr cynorthwyol

- 8 Prif weithredwr
- 9 Staff eraill
- 10 Arbenigwyr
- 11 Comisiynwyr cynorthwyol

Pwerau cyffredinol a chyfarwyddiadau

- 12 Pwerau
- 13 Dirprwyo
- 14 Cyfarwyddiadau

Materion ariannol

- 15 Cyllido
- 16 Swyddog cyfrifyddu
- 17 Pwyllgor archwilio
- 18 Pwyllgor archwilio: aelodaeth
- 19 Cyfrifon ac archwilio allanol
- 20 Adroddiadau blynyddol

RHAN 3**TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL****PENNOD 1****DYLETSWYDD I FONITRO TREFNIADAU LLYWODRAETH LEOL***Dyletswydd y Comisiwn*

- 21 Dyletswydd y Comisiwn i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol

Dyletswyddau prif gyngor

- 22 Dyletswyddau prif gynghorau mewn perthynas ag ardal

PENNOD 2**ADOLYGIADAU ARDAL***Prif ardaloedd*

- 23 Adolygu ffiniau prif ardaloedd
- 24 Adolygu prif ardaloedd yn dilyn gorchymyn tref newydd

Staff, experts and assistant commissioners

- 8 Chief executive
- 9 Other staff
- 10 Experts
- 11 Assistant commissioners

General powers and directions

- 12 Powers
- 13 Delegation
- 14 Directions

Financial matters

- 15 Funding
- 16 Accounting officer
- 17 Audit committee
- 18 Audit committee: membership
- 19 Accounts and external audit
- 20 Annual reports

PART 3

ARRANGEMENTS FOR LOCAL GOVERNMENT

CHAPTER 1

DUTIES TO MONITOR LOCAL GOVERNMENT ARRANGEMENTS

Duty of the Commission

- 21 Duty of the Commission to monitor arrangements for local government

Duties of a principal council

- 22 Duties of principal councils in relation to area

CHAPTER 2

AREA REVIEWS

Principal areas

- 23 Review of principal area boundaries
- 24 Review of principal areas following new town order

Cymunedau

- 25 Adolygu ffiniau cymuned gan brif gyngor
26 Adolygu ffiniau cymuned gan y Comisiwn

Siroedd wedi eu cadw

- 27 Adolygu siroedd wedi eu cadw

Ffiniau tua'r môr

- 28 Adolygu ffiniau tua'r môr

PENNOD 3**ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL***Prif ardaloedd*

- 29 Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal
30 Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal

Cymunedau

- 31 Adolygu trefniadau etholiadol i gymunedau gan brif gyngor
32 Adolygu trefniadau etholiadol cymuned gan y Comisiwn
33 Ystyriaethau ar gyfer adolygu trefniadau etholiadol cymuned

PENNOD 4**Y WEITHDREFN AR GYFER ADOLYGIADAU LLYWODRAETH LEOL***Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau*

- 34 Y weithdrefn ragadolygu
35 Ymgynghori ac ymchwilio
36 Adrodd ar yr adolygiad

PENNOD 5**GWEITHREDU YN DILYN ADOLYGIAD***Gweithredu gan Weinidogion Cymru*

- 37 Gweithredu gan Weinidogion Cymru

Gweithredu anweinidogol

- 38 Gweithredu newid i ffin cymuned
39 Gweithredu newid i drefniadau etholiadol cymuned

Communities

- 25 Review of community boundaries by principal council
- 26 Review of community boundaries by the Commission

Preserved counties

- 27 Review of preserved counties

Seaward boundaries

- 28 Review of seaward boundaries

CHAPTER 3

ELECTORAL ARRANGEMENTS REVIEWS

Principal areas

- 29 Review of electoral arrangements for principal area
- 30 Considerations for a review of principal area electoral arrangements

Communities

- 31 Review of electoral arrangements for community by principal council
- 32 Review of electoral arrangements for community by the Commission
- 33 Considerations for a review of community electoral arrangements

CHAPTER 4

PROCEDURE FOR LOCAL GOVERNMENT REVIEWS

Procedure for reviews

- 34 Pre-review procedure
- 35 Consultation and investigation
- 36 Reporting on review

CHAPTER 5

IMPLEMENTATION FOLLOWING REVIEW

Implementation by the Welsh Ministers

- 37 Implementation by the Welsh Ministers

Non-ministerial implementation

- 38 Implementation of community boundary change
- 39 Implementation of community electoral arrangements change

Darpariaeth bellach ynghylch gweithredu a gorchmynion gweithredu

- 40 Gorchmynion gweithredu: darpariaeth ganlyniadol
- 41 Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol gyffredinol
- 42 Trosglwyddo staff
- 43 Amrywio a dirymu gorchmynion

Cytundebau rhwng cyrff cyhoeddus i ymdrin â newid

- 44 Cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid

PENNOD 6

DARPARIAETH ARALL SY'N BERTHNASOL I FFINIAU AWDURDODAU LLEOL

- 45 Newid ardal heddlu
- 46 Rhychwant ffiniau tua'r môr
- 47 Newid ffin yn dilyn newid cwrs dŵr

PENNOD 7

DARPARIAETH AMRYWIOL

- 48 Cyfarwyddiadau a chanllawiau ynghylch Rhan 3
- 49 Ymchwiliadau lleol

RHAN 4

ADOLYGIADAU O AELODAETH CYRFF CYHOEDDUS

- 50 Adolygiadau o gyrff cyhoeddus cymwys

RHAN 5

NEWIDIADAU ERAILL I LYWODRAETH LEOL

Aelodau llywyddol

- 51 Aelod llywyddol prif gyngor

Biliau preifat

- 52 Hyrwyddo Biliau preifat
- 53 Gwrthwynebu Biliau preifat
- 54 Cyfyngu ar daliadau mewn perthynas â hyrwyddo neu wrthwynebu Biliau

Mynediad i wybodaeth

- 55 Gwefannau cynghorau cymuned
- 56 Gofyniad i roi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig
- 57 Cyfarfodydd a thrafodion cymunedau
- 58 Cofrestrau buddiannau aelodau

Further provision about implementation and implementation orders

- 40 Implementation orders: consequential provision
- 41 General consequential and transitional provision
- 42 Transfers of staff
- 43 Variation and revocation of orders

Agreements between public bodies to deal with change

- 44 Transitional agreements as to property and finance

CHAPTER 6

OTHER PROVISION RELEVANT TO LOCAL AUTHORITY BOUNDARIES

- 45 Police area change
- 46 Extent of seaward boundaries
- 47 Boundary change following alteration of water-course

CHAPTER 7

MISCELLANEOUS PROVISION

- 48 Directions and guidance relating to Part 3
- 49 Local inquiries

PART 4

REVIEWS OF PUBLIC BODY MEMBERSHIP

- 50 Reviews of qualifying public bodies

PART 5

OTHER CHANGES TO LOCAL GOVERNMENT

Presiding members

- 51 Presiding member of principal council

Private Bills

- 52 Promoting private Bills
- 53 Opposing private Bills
- 54 Restriction on payments in relation to promoting or opposing Bills

Access to information

- 55 Community council websites
- 56 Requirement to give public notices electronically
- 57 Meetings and proceedings of communities
- 58 Registers of members' interests

Mynychu cyfarfodydd o bell

59 Mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell

Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd

60 Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd

Pwyllgorau archwilio

61 Pwyllgorau archwilio

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

62 Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau

63 Swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau penaethiaid gwasanaethau cyflogedig

64 Awdurdodau perthnasol

65 Adroddiadau blynyddol dilynol

66 Ymgynghori ar adroddiadau drafft

67 Gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau

Cyd-bwyllgorau safonau

68 Cyd-bwyllgorau safonau

69 Atgyfeirio achosion yn ymwneud ag ymddygiad

RHAN 6**DARPARIAETH AMRYWIOL A CHYFFREDINOL**

70 Darpariaeth atodol

71 Gorchmynion a rheoliadau

72 Dehongli

73 Diddymiadau, mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

74 Adolygiadau sy'n mynd rhagddynt ac arbedion eraill

75 Cychwyn

76 Teitl byr

Atodlen 1 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Atodlen 2 – Diddymiadau

Atodlen 3 – Mynegai o ymadroddion wedi ei diffinio

Remote attendance at meetings

- 59 Remote attendance at meetings of principal councils

Democratic services committees

- 60 Democratic services committees

Audit committees

- 61 Audit committees

Independent Remuneration Panel for Wales

- 62 Functions relating to payments to members
63 Functions relating to salaries of heads of paid service
64 Relevant authorities
65 Subsequent annual reports
66 Consultation on draft reports
67 Publicity requirements in reports

Joint standards committees

- 68 Joint standards committees
69 Referral of cases relating to conduct

PART 6

MISCELLANEOUS AND GENERAL PROVISION

- 70 Ancillary provision
71 Orders and regulations
72 Interpretation
73 Minor and consequential amendments and repeals
74 Ongoing reviews and other savings
75 Commencement
76 Short title

- Schedule 1 – Minor and consequential amendments
Schedule 2 – Repeals
Schedule 3 – Index of defined expressions



Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a swyddogaethau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru; i wneud darpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â llywodraeth leol; ac at ddibenion cysylltiedig. [30 Gorffennaf 2013]

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:-

RHAN 1

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg

- (1) Mae'r Rhan hon yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau'r Ddeddf hon.
- (2) Mae Rhan 2 yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac yn diwygio ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau.
- (3) Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch—
 - (a) dyletswyddau'r Comisiwn i fonitro'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol a, lle y bo'n briodol, i gynnal adolygiadau, a dyletswyddau prif gynghorau i fonitro'r trefniadau ar gyfer y cymunedau yn eu hardal a, lle y bo'n briodol, i gynnal adolygiadau (gweler adrannau 21 a 22),
 - (b) y mathau o adolygiadau y gellir eu cynnal, yr ystyriaethau i'r corff adolygu eu hystyried a'r newidiadau y gellir eu hargymell mewn perthynas â phob math o adolygiad (gweler adrannau 23 i 33),
 - (c) y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau (gweler adrannau 34 i 36),



Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013

An Act of the National Assembly for Wales to make provision about the constitution and functions of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales; to make various provisions relating to local government; and for connected purposes. [30 July 2013]

Having been passed by the National Assembly for Wales and having received the assent of Her Majesty, it is enacted as follows:-

PART 1

INTRODUCTION

1 Overview

- (1) This Part provides an overview of the provisions of this Act.
- (2) Part 2 renames the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales and reforms its constitution and functions.
- (3) Part 3 makes provision about—
 - (a) the duties of the Commission to monitor the arrangements for local government and to conduct reviews where appropriate, and the duties of principal councils to monitor the arrangements for the communities in their area and to conduct reviews where appropriate (see sections 21 and 22),
 - (b) the types of reviews that can be conducted, the considerations to be taken into account by the reviewing body and the changes that can be recommended in relation to each type of review (see sections 23 to 33),
 - (c) the procedure for conducting reviews (see sections 34 to 36),

- (d) gweithredu argymhellion yn dilyn adolygiad a materion cysylltiedig (megis trosglwyddo staff neu eiddo rhwng prif gynghorau a chyrrff cyhoeddus eraill) (gweler adrannau 37 i 44).
- (4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu aelodaeth cyrrff cyhoeddus penodol.
- (5) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth—
- (a) ynghylch penodi aelod llywyddol prif gyngor;
 - (b) sy'n ailddatgan ac yn ymestyn pwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â hyrwyddo a gwrthwynebu Biliau preifat;
 - (c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth cynghorau cymuned fod ar gael ar ffurf electronig;
 - (d) ynghylch cyhoeddi cofrestrau o fuddiannau aelodau cyrrff cyhoeddus penodol (gan gynnwys awdurdodau lleol) yn electronig;
 - (e) yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell;
 - (f) yn ymwneud â rôl pwyllgorau gwasanaethau democrataidd;
 - (g) sy'n cymhwyso gofynion o ran cydbwysedd gwleidyddol i bwyllgorau archwilio prif bwyllgorau;
 - (h) yn ymwneud â swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a sut y mae'n paratoi adroddiadau;
 - (i) ynghylch sefydlu cyd-bwyllgorau safonau;
 - (j) sy'n galluogi'r pwyllgor safonau neu swyddog monitro awdurdod perthnasol i gyfeirio achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad at bwyllgor safonau neu swyddog monitro awdurdod perthnasol arall.
- (6) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch y Ddeddf hon.

RHAN 2

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Parhad ac enw

2 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

- (1) Mae'r corff corfforaethol a enwir yn Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (a sefydlwyd o dan adran 53 o Ddeddf 1972) i barhau mewn bodolaeth.
- (2) Ond mae wedi ei ailenwi, ac mae i'w alw'n Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Comisiwn").

Statws

3 Statws

- (1) Nid yw'r Comisiwn i'w ystyried yn was nac yn asiant i'r Goron nac yn un sy'n mwynhau unrhyw statws, imiwnedd neu fraint sydd gan y Goron.

- (d) the implementation of recommendations following a review and associated matters (such as the transfer of staff or property between principal councils and other public bodies) (see sections 37 to 44).
- (4) Part 4 makes provision about the review of the membership of certain public bodies.
- (5) Part 5 makes provision—
 - (a) about the appointment of a presiding member for a principal council;
 - (b) restating and extending the powers of local authorities in relation to promoting and opposing private Bills;
 - (c) requiring community council information to be made available electronically;
 - (d) about the electronic publication of certain public bodies' (including local authorities) registers of members' interests;
 - (e) relating to remote attendance at meetings of principal councils;
 - (f) relating to the role of democratic services committees;
 - (g) applying political balance requirements to the audit committees of principal councils;
 - (h) relating to the functions of the Independent Remuneration Panel for Wales and how it prepares reports;
 - (i) about the establishment of joint standards committees;
 - (j) enabling the standards committee or monitoring officer of a relevant authority to refer cases relating to conduct to the standards committee or monitoring officer of another relevant authority.
- (6) Part 6 makes general provision about this Act.

PART 2

LOCAL DEMOCRACY AND BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

Continuation and name

2 Local Democracy and Boundary Commission for Wales

- (1) The body corporate called the Local Government Boundary Commission for Wales (established under section 53 of the 1972 Act) is to continue in existence.
- (2) But it is renamed, and is to be known as, the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (referred to in this Act as "the Commission").

Status

3 Status

- (1) The Commission is not to be regarded as a servant or agent of the Crown or as enjoying any status, immunity or privilege of the Crown.

- (2) Nid yw eiddo'r Comisiwn i'w ystyried yn eiddo'r Goron nac yn eiddo sy'n cael ei ddal ar ran y Goron.

Aelodau

4 Aelodaeth

- (1) Yr aelodau a ganlyn fydd aelodau'r Comisiwn—
- (a) aelod i gadeirio'r Comisiwn (yr "aelod cadeirio"),
 - (b) aelod i weithredu fel dirprwy i'r aelod cadeirio, ac
 - (c) dim mwy na 3 aelod arall.
- (2) Mae'r aelodau i'w penodi gan Weinidogion Cymru ar delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys amodau o ran tâl, lwfansau a threuliau).
- (3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person sydd yn—
- (a) aelod Seneddol;
 - (b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - (c) aelod o awdurdod lleol yng Nghymru;
 - (d) swyddog i awdurdod lleol yng Nghymru;
 - (e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
 - (f) comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu
 - (g) aelod o staff y Comisiwn.

5 Deiliadaeth

Mae aelodau'r Comisiwn yn dal ac yn gadael swydd yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad.

Trafodion

6 Trafodion

- (1) 3 yw'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Comisiwn.
- (2) Fel arall, caiff y Comisiwn reoleiddio ei weithdrefn ei hun.
- (3) Nid yw unrhyw ddiffyg ym mhenodiad aelod yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y Comisiwn.

7 Y sêl a dilysrwydd dogfennau

- (1) Caniateir i'r Comisiwn gael sêl.
- (2) Dilysir y weithred o osod y sêl drwy lofnod aelod o'r Comisiwn neu lofnod person arall sydd wedi ei awdurdodi gan y Comisiwn at y diben hwnnw.
- (3) Mae dogfen yr honnir ei bod wedi ei chyflawni'n briodol o dan sêl y Comisiwn, neu ei bod wedi ei llofnodi ar ei ran gan y prif weithredwr neu aelod arall o staff sydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny, i gael ei derbyn yn dystiolaeth a rhaid cymryd ei bod wedi ei chyflawni neu wedi ei llofnodi felly oni phrofir i'r gwrthwyneb.

- (2) The Commission's property is not to be regarded as property of, or property held on behalf of, the Crown.

Members

4 Membership

- (1) The Commission consists of—
 - (a) a member to chair the Commission (the "chairing member"),
 - (b) a member to act as deputy to the chairing member, and
 - (c) not more than 3 other members.
- (2) Members are to be appointed by the Welsh Ministers on such terms and conditions as the Welsh Ministers may determine (including conditions as to remuneration, allowances and expenses).
- (3) The Welsh Ministers may not appoint a person who is—
 - (a) a member of Parliament;
 - (b) a member of the National Assembly for Wales;
 - (c) a member of a local authority in Wales;
 - (d) an officer of a local authority in Wales;
 - (e) a member of a National Park authority for a National Park in Wales;
 - (f) a police and crime commissioner for a police area in Wales; or
 - (g) a member of the Commission's staff.

5 Tenure

Members of the Commission hold and vacate office in accordance with their terms and conditions of appointment.

Proceedings

6 Proceedings

- (1) The quorum for meetings of the Commission is 3.
- (2) The Commission may otherwise regulate its own procedure.
- (3) The validity of anything done by the Commission is not affected by any defect in the appointment of a member.

7 Seal and validity of documents

- (1) The Commission may have a seal.
- (2) The application of the seal is authenticated by the signature of a member of the Commission or of another person authorised by the Commission for that purpose.
- (3) A document purporting to be duly executed under the seal of the Commission, or signed on its behalf by the chief executive or another member of staff authorised to do so, is to be received in evidence and taken to be so executed or signed unless the contrary is proved.

*Staff, arbenigwyr a chomisiynwyr cynorthwyol***8 Prif weithredwr**

- (1) Rhaid i'r Comisiwn gyflogi prif weithredwr.
- (2) Mae'r prif weithredwr i'w benodi gan Weinidogion Cymru ar delerau ac amodau a benderfynir ganddynt (gan gynnwys amodau o ran tâl, pensiwn, lwfansau a threuliau).
- (3) Cyn penodi prif weithredwr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.

9 Staff eraill

- (1) Caiff y Comisiwn gyflogi staff.
- (2) Mae'r staff i'w cyflogi ar delerau ac amodau a benderfynir gan y Comisiwn (gan gynnwys amodau o ran tâl, pensiwn, lwfansau a threuliau).
- (3) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y symiau sy'n daladwy i'w staff mewn cysylltiad â thâl, pensiynau, lwfansau a threuliau.

10 Arbenigwyr

- (1) Caiff y Comisiwn benodi person ("arbenigwr") i'w gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau.
- (2) Cyn penodi arbenigwr rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.
- (3) Ni chaniateir i benodiad o dan is-adran (1) gael ei wneud oni bai bod y Comisiwn wedi ei fodloni bod gan yr arbenigwr wybodaeth, profiad neu arbenigedd sy'n berthnasol i'r broses o arfer ei swyddogaethau.
- (4) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i'r arbenigwr.
- (5) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i arbenigwr.

11 Comisiynwyr cynorthwyol

- (1) Caiff y Comisiwn benodi person ("comisiynydd cynorthwyol") y caiff, at ddibenion adran 13, ddirprwyo swyddogaethau iddo.
- (2) Ond ni chaiff y Comisiwn benodi person sydd yn—
 - (a) aelod Seneddol;
 - (b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - (c) aelod o awdurdod lleol yng Nghymru;
 - (d) swyddog i awdurdod lleol yng Nghymru;
 - (e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
 - (f) comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu
 - (g) aelod o staff y Comisiwn.
- (3) Cyn penodi comisiynydd cynorthwyol rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

Staff, experts and assistant commissioners

8 Chief executive

- (1) The Commission must employ a chief executive.
- (2) The chief executive is to be appointed by the Welsh Ministers on such terms and conditions as they may determine (including conditions as to remuneration, pension, allowances and expenses).
- (3) Before appointing a chief executive the Welsh Ministers must consult the Commission.

9 Other staff

- (1) The Commission may employ staff.
- (2) Staff are to be employed on terms and conditions determined by the Commission (including conditions as to remuneration, pension, allowances and expenses).
- (3) The Commission must consult the Welsh Ministers before determining the amounts payable to its staff in respect of remuneration, pensions, allowances and expenses.

10 Experts

- (1) The Commission may appoint a person (an “expert”) to assist it in the exercise of its functions.
- (2) Before appointing an expert the Commission must consult the Welsh Ministers.
- (3) An appointment under subsection (1) may not be made unless the Commission is satisfied that the expert has knowledge, experience or expertise relevant to the exercise of its functions.
- (4) The Commission may pay the expert such remuneration, allowances or expenses as it may determine.
- (5) The Commission must consult the Welsh Ministers before determining the remuneration or allowances payable to an expert.

11 Assistant commissioners

- (1) The Commission may appoint a person (an “assistant commissioner”) to whom, for the purposes of section 13, it may delegate functions.
- (2) But the Commission may not appoint a person who is –
 - (a) a member of Parliament;
 - (b) a member of the National Assembly for Wales;
 - (c) a member of a local authority in Wales;
 - (d) an officer of a local authority in Wales;
 - (e) a member of a National Park authority for a National Park in Wales;
 - (f) a police and crime commissioner for a police area in Wales; or
 - (g) a member of the Commission’s staff.
- (3) Before appointing an assistant commissioner the Commission must consult the Welsh Ministers.

- (4) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i gomisiynydd cynorthwyol.
- (5) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.

Pwerau cyffredinol a chyfarwyddiadau

12 Pwerau

- (1) Caiff y Comisiwn wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso'r arferiad o'i swyddogaethau neu sy'n ffafriol i'r arferiad o'i swyddogaethau neu'n gysylltiedig â hynny.
- (2) Ond ni chaiff y Comisiwn –
 - (a) benthyca arian;
 - (b) caffael tir neu eiddo arall heb gydsyniad Gweinidogion Cymru; neu
 - (c) ffurfio a hyrwyddo cwmnïau.

13 Dirprwyo

- (1) Caiff y Comisiwn ddirprwyo i un neu fwy o'i aelodau neu gomisiynydd cynorthwyol y swyddogaethau hynny o dan Benodau 2 i 4, 6 neu 7 o Ran 3 (swyddogaethau ynghylch cynnal adolygiadau o lywodraeth leol neu ymchwiliadau lleol) a benderfynir ganddo i'r graddau y mae wedi eu dirprwyo felly.
- (2) Nid yw is-adran (1) yn effeithio ar –
 - (a) cyfrifoldeb y Comisiwn dros arfer swyddogaethau dirprwyedig, na
 - (b) gallu'r Comisiwn i arfer swyddogaethau dirprwyedig.

14 Cyfarwyddiadau

- (1) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd (boed yn gyffredinol neu'n benodol) a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.
- (2) Caniateir i gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon gael ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd dilynol.

Materion ariannol

15 Cyllido

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau i'r Comisiwn o symiau a benderfynir ganddynt.
- (2) Gwneir grant yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a bennir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys amodau ynghylch ad-dalu).

16 Swyddog cyfrifyddu

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddynodi person i weithredu'n swyddog cyfrifyddu i'r Comisiwn.

- (4) The Commission may pay an assistant commissioner such remuneration, allowances or expenses as it may determine.
- (5) The Commission must consult the Welsh Ministers before determining the remuneration or allowances payable to an assistant commissioner.

General powers and directions

12 Powers

- (1) The Commission may do anything which is calculated to facilitate, or is conducive or incidental to, the exercise of its functions.
- (2) But the Commission may not—
 - (a) borrow money;
 - (b) acquire land or other property without the consent of the Welsh Ministers; or
 - (c) form and promote companies.

13 Delegation

- (1) The Commission may delegate to one or more of its members or an assistant commissioner such of its functions under Chapters 2 to 4, 6 or 7 of Part 3 (functions relating to the conduct of reviews of local government or local inquiries) as it may determine to the extent so delegated.
- (2) Subsection (1) does not affect the Commission's—
 - (a) responsibility for exercise of delegated functions, or
 - (b) ability to exercise delegated functions.

14 Directions

- (1) The Commission must comply with any direction (general or specific) given to it by the Welsh Ministers.
- (2) A direction given by the Welsh Ministers under this Act may be varied or revoked by a subsequent direction.

Financial matters

15 Funding

- (1) The Welsh Ministers may pay grants to the Commission of such amounts as they may determine.
- (2) A grant is made subject to any conditions specified by the Welsh Ministers (including conditions about repayment).

16 Accounting officer

- (1) The Welsh Ministers must designate a person to act as the Commission's accounting officer.

- (2) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid y Comisiwn, y cyfrifoldebau a bennir mewn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.
- (3) Ymhlith y cyfrifoldebau y caniateir eu pennu mae—
 - (a) cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi cyfrifon;
 - (b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y Comisiwn;
 - (c) cyfrifoldebau am ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Comisiwn ddefnyddio ei adnoddau;
 - (d) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol;
 - (e) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Dŷ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Tŷ hwnnw.

17 Pwyllgor archwilio

- (1) Rhaid i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor ("pwyllgor archwilio") i—
 - (a) adolygu materion ariannol y Comisiwn a chraffu arnynt,
 - (b) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Comisiwn,
 - (c) adolygu ac asesu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnydd y Comisiwn o'i adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau, a
 - (d) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Comisiwn mewn perthynas ag adolygiadau a gynhelir o dan baragraffau (a), (b) neu (c).
- (2) Rhaid i'r pwyllgor archwilio anfon copïau o'i adroddiadau a'i argymhellion at Weinidogion Cymru.
- (3) Y pwyllgor archwilio sydd i benderfynu sut i arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.

18 Pwyllgor archwilio: aelodaeth

- (1) Mae aelodau'r pwyllgor archwilio i fod fel a ganlyn—
 - (a) o leiaf ddau aelod o'r Comisiwn, a
 - (b) o leiaf un aelod lleyg.
- (2) Ni chaiff aelod cadeirio'r Comisiwn fod yn aelod o'r pwyllgor archwilio.
- (3) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau a threuliau a benderfynir ganddo i aelod lleyg.
- (4) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i aelod lleyg.
- (5) Yn yr adran hon, ystyr "aelod lleyg" yw unrhyw berson ar wahân i—
 - (a) un o aelodau neu gyflogeion y Comisiwn, neu
 - (b) arbenigwr sydd wedi ei benodi o dan adran 10(1) neu gomisiynydd cynorthwyol sydd wedi ei benodi o dan adran 11(1).

- (2) The accounting officer has, in relation to the Commission's accounts and finances, the responsibilities specified in a direction by the Welsh Ministers.
- (3) The responsibilities that may be specified include—
 - (a) responsibilities in relation to the signing of accounts;
 - (b) responsibilities for the propriety and regularity of the Commission's finances;
 - (c) responsibilities for the economy, efficiency and effectiveness with which the Commission uses its resources;
 - (d) responsibilities owed to the Welsh Ministers, the National Assembly for Wales or the Public Accounts Committee of the National Assembly;
 - (e) responsibilities owed to the House of Commons or the Committee of Public Accounts of that House.

17 Audit committee

- (1) The Commission must establish a committee (an "audit committee") to—
 - (a) review and scrutinise the Commission's financial affairs,
 - (b) review and assess the Commission's risk management, internal control and corporate governance arrangements,
 - (c) review and assess the economy, efficiency and effectiveness with which resources have been used in discharging the Commission's functions, and
 - (d) make reports and recommendations to the Commission in relation to reviews conducted under paragraphs (a), (b) or (c).
- (2) The audit committee must send copies of its reports and recommendations to the Welsh Ministers.
- (3) It is for the audit committee to determine how to exercise its functions under this section.

18 Audit committee: membership

- (1) The audit committee is to consist of—
 - (a) at least two members of the Commission, and
 - (b) at least one lay member.
- (2) The Commission's chairing member may not be a member of the audit committee.
- (3) The Commission may pay such remuneration, allowances and expenses to a lay member as it may determine.
- (4) The Commission must consult the Welsh Ministers before determining the remuneration or allowances payable to a lay member.
- (5) In this section "lay member" means any person other than—
 - (a) a member or an employee of the Commission, or
 - (b) an expert appointed under section 10(1) or assistant commissioner appointed under section 11(1).

19 Cyfrifon ac archwilio allanol

- (1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiwn—
 - (a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a
 - (b) llunio datganiad o gyfrifon.
- (2) Rhaid i bob datganiad o gyfrifon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o ran—
 - (a) yr wybodaeth i'w chynnwys ynddo,
 - (b) y modd y mae'r wybodaeth i gael ei chyflwyno,
 - (c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy.
- (3) Heb fod yn hwyrach nag 31 Awst ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei ddatganiad o gyfrifon i—
 - (a) Gweinidogion Cymru, a
 - (b) Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- (4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—
 - (a) archwilio ac ardystio'r datganiad o gyfrifon ac adrodd arno, a
 - (b) heb fod yn hwyrach na 4 mis ar ôl i'r datganiad gael ei gyflwyno, gosod copi o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (5) Yn yr adran hon, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

20 Adroddiadau blynyddol

- (1) Heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar y broses o gyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad a gosod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (3) Yn yr adran hon, mae i "blwyddyn ariannol" yr un ystyr ag yn adran 19.

RHAN 3**TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL****PENNOD 1****DYLETSWYDDAU I FONITRO TREFNIADAU LLYWODRAETH LEOL***Dyletswydd y Comisiwn***21 Dyletswydd y Comisiwn i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol**

- (1) Rhaid i'r Comisiwn, at ddibenion ystyried a yw'n briodol i wneud neu argymhell newidiadau o dan y Rhan hon, fonitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru.

19 Accounts and external audit

- (1) The Commission must for each financial year –
 - (a) keep proper accounts and proper records in relation to them, and
 - (b) prepare a statement of accounts.
- (2) Each statement of accounts must comply with any directions given by the Welsh Ministers as to –
 - (a) the information to be contained in it,
 - (b) the manner in which the information is to be presented,
 - (c) the methods and principles according to which the statement is to be prepared.
- (3) No later than 31 August after the end of each financial year the Commission must submit its statement of accounts to –
 - (a) the Welsh Ministers, and
 - (b) the Auditor General for Wales.
- (4) The Auditor General for Wales must –
 - (a) examine, certify and report on the statement of accounts, and
 - (b) no later than 4 months after the statement was submitted, lay before the National Assembly for Wales a copy of the certified statement and report.
- (5) In this section, “financial year” means the period of 12 months ending on 31 March.

20 Annual reports

- (1) No later than 30 November after the end of each financial year the Commission must submit a report to the Welsh Ministers on the discharge of its functions during that year.
- (2) The Welsh Ministers must publish the report and lay a copy before the National Assembly for Wales.
- (3) In this section, “financial year” has the same meaning as in section 19.

PART 3

ARRANGEMENTS FOR LOCAL GOVERNMENT

CHAPTER 1

DUTIES TO MONITOR LOCAL GOVERNMENT ARRANGEMENTS

Duty of the Commission

21 Duty of the Commission to monitor arrangements for local government

- (1) The Commission must, for the purpose of considering whether it is appropriate to make or recommend changes under this Part, monitor the areas and electoral arrangements relevant to local government in Wales.

- (2) Yn unol â'r ddyletswydd honno, rhaid i'r Comisiwn gynnal y cyfryw adolygiadau o dan y Rhan hon ag a fo'n ofynnol o dan y deddfiad hwn neu unrhyw ddeddfiad arall, y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo, neu fel y mae fel arall yn ystyried sy'n briodol.
- (3) Wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rhan hon (ac wrth gynnal unrhyw adolygiad), rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Dyletswyddau prif gyngor

22 Dyletswyddau prif gynghorau mewn perthynas ag ardal

- (1) Rhaid i brif gyngor, at ddibenion ystyried a yw'n briodol i wneud neu argymhell newidiadau o dan y Rhan hon, fonitro—
 - (a) y cymunedau yn ei ardal, a
 - (b) trefniadau etholiadol y cymunedau hynny.
- (2) Yn unol â'r ddyletswydd honno, rhaid i brif gyngor—
 - (a) rhoi sylw i amserlen y Comisiwn ar gyfer cynnal yr adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd sy'n ofynnol gan adran 29(1), a
 - (b) cynnal y cyfryw adolygiadau o dan y Rhan hon ag a fo'n ofynnol o dan y deddfiad hwn neu unrhyw ddeddfiad arall, y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo, neu fel y mae fel arall yn ystyried sy'n briodol.
- (3) Wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rhan hon (ac wrth gynnal unrhyw adolygiad), rhaid i brif gyngor geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- (4) Rhaid i brif gyngor ddarparu i'r Comisiwn yr wybodaeth y gallai yn rhesymol ofyn amdani mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.
- (5) Rhaid i brif gyngor, mewn cysylltiad â phob cyfnod adrodd, gyhoeddi adroddiad sy'n disgrifio sut y cyflawnodd ei ddyletswydd o dan is-adran (1) ac anfon copi o'r adroddiad at y Comisiwn.
- (6) Yn yr adran hon, ystyr "cyfnod adrodd" yw—
 - (a) y cyfnod o 10 mlynedd sy'n dechrau gyda—
 - (i) y dyddiad pryd y cyhoeddwyd ddiwethaf adroddiad gan y prif gyngor o dan adran 55(2A) neu, os yw'n gynharach, adran 57(4A) o Ddeddf 1972, neu
 - (ii) yn achos prif gyngor nad yw wedi cyhoeddi adroddiad o'r fath cyn y daw'r adran hon i rym, y dyddiad pryd y daw'r adran hon i rym, a
 - (b) pob cyfnod dilynol o 10 mlynedd.

- (2) In pursuance of that duty, the Commission must carry out such reviews under this Part as are required under this or any other enactment, as may be directed by the Welsh Ministers, or as it otherwise considers appropriate.
- (3) In carrying out its duties under this Part (and in conducting any review), the Commission must seek to ensure effective and convenient local government.

Duties of a principal council

22 Duties of principal councils in relation to area

- (1) A principal council must, for the purpose of considering whether it is appropriate to make or recommend changes under this Part, monitor –
 - (a) the communities in its area, and
 - (b) the electoral arrangements of such communities.
- (2) In pursuance of that duty, a principal council must –
 - (a) have regard to the Commission’s timetable for conducting the reviews of principal areas’ electoral arrangements required by section 29(1), and
 - (b) carry out such reviews under this Part as are required under this or any other enactment, as may be directed by the Welsh Ministers, or as it otherwise considers appropriate.
- (3) In carrying out its duties under this Part (and in conducting any review), a principal council must seek to ensure effective and convenient local government.
- (4) A principal council must provide the Commission with such information as it may reasonably require in connection with the exercise of its functions under this Part.
- (5) A principal council must, in respect of each reporting period, publish a report describing how it has discharged its duty under subsection (1) and send a copy of the report to the Commission.
- (6) In this section, “reporting period” means –
 - (a) the period of 10 years beginning with –
 - (i) the date on which the principal council last published a report under section 55(2A) or, if earlier, section 57(4A) of the 1972 Act, or
 - (ii) in the case of a principal council which has not published such a report before coming into force this section, the day on which this section comes into force, and
 - (b) each subsequent period of 10 years.

PENNOD 2**ADOLYGIADAU ARDAL***Prif ardaloedd***23 Adolygu ffiniau prif ardaloedd**

- (1) Caiff y Comisiwn, o'i wirfodd neu ar gais gan awdurdod lleol, gynnal adolygiad o un neu ragor o brif ardaloedd.
- (2) Ond rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) ar gais awdurdod lleol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.
- (3) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw –
 - (a) y newidiadau hynny i ffin prif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol, a
 - (b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffin prif ardal, y newidiadau hynny i ffin cymuned, newidiadau i sir wedi ei chadw, newidiadau i gyngor cymuned neu drefniadau etholiadol y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (4) At ddibenion y Rhan hon –
 - (a) mae cyfeiriad at "newid i ffin cymuned" yn gyfeiriad at –
 - (i) newid y ffin i gymuned;
 - (ii) dileu cymuned;
 - (iii) cyfansoddi cymuned newydd;
 - (b) mae cyfeiriad at "newid i gyngor cymuned" yn gyfeiriad at –
 - (i) cyfansoddi cyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cyffredin ar gyfer grŵp o gymunedau;
 - (ii) diddymu cyngor cymuned (un ar wahân neu un cyffredin);
 - (iii) gwahanu cymuned o grŵp o gymunedau sydd â chyngor cymuned cyffredin;
 - (iv) ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau sydd â chyngor cymuned cyffredin;
 - (c) mae cyfeiriad at "newid i drefniadau etholiadol" yn gyfeiriad at newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw ardal llywodraeth leol;
 - (d) mae cyfeiriad at "newid i sir wedi ei chadw" yn gyfeiriad at newid i ardal sir wedi ei chadw;
 - (e) mae cyfeiriad at "newid i ffin prif ardal" yn gyfeiriad at –
 - (i) newid y ffin i brif ardal;
 - (ii) diddymu prif ardal;
 - (iii) cyfansoddi prif ardal newydd.

CHAPTER 2

AREA REVIEWS

Principal areas

23 Review of principal area boundaries

- (1) The Commission may, of its own initiative or at the request of a local authority, conduct a review of one or more principal areas.
- (2) But the Commission must not conduct a review under subsection (1) at the request of a local authority if it considers that doing so would impede the proper exercise of its functions.
- (3) The changes that the Commission may recommend in relation to a review under this section are –
 - (a) such principal area boundary changes as it considers appropriate, and
 - (b) in consequence of any principal area boundary changes such community boundary changes, preserved county changes, community council changes or electoral arrangements changes as it considers appropriate.
- (4) For the purposes of this Part –
 - (a) a reference to a “community boundary change” is a reference to –
 - (i) altering the boundary of a community;
 - (ii) abolishing a community;
 - (iii) constituting a new community;
 - (b) a reference to “community council change” is a reference to –
 - (i) constituting a council for a community or a common council for a group of communities;
 - (ii) dissolving a community council (separate or common);
 - (iii) separating a community from a group of communities having a common community council;
 - (iv) adding a community to a group of communities having a common community council;
 - (c) a reference to an “electoral arrangements change” is a reference to a change to the electoral arrangements for any local government area;
 - (d) a reference to a “preserved county change” is a reference to a change to the area of a preserved county;
 - (e) a reference to a “principal area boundary change” is a reference to –
 - (i) altering the boundary of a principal area;
 - (ii) abolishing a principal area;
 - (iii) constituting a new principal area.

24 Adolygu prif ardaloedd yn dilyn gorchymyn tref newydd

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys –
 - (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 (p. 64) (dynodi ardaloedd o dir ar gyfer trefi newydd) sy'n dynodi unrhyw ardal o dir yn safle i dref newydd, a
 - (b) pan na fo'r ardal a ddynodwyd felly ar gyfer y dref newydd yn cael ei chynnwys yn ei chyfanrwydd o fewn prif ardal.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl dyddiad gweithredu'r gorchymyn, hysbysu'r Comisiwn gan bennu'r prif ardaloedd y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn, pan ddaw hysbysiad i law o dan is-adran (2), gynnal adolygiad o dan adran 23 o unrhyw brif ardaloedd a bennir yn yr hysbysiad.

*Cymunedau***25 Adolygu ffiniau cymuned gan brif gyngor**

- (1) Caiff prif gyngor gynnal adolygiad o un neu ragor o'r cymunedau yn ei ardal –
 - (a) o'i wirfodd, neu
 - (b) ar gais –
 - (i) cyngor cymuned yn ei ardal, neu
 - (ii) cyfarfod cymunedol yn ei ardal.
- (2) Ond rhaid i brif gyngor beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) ar gais cyngor cymuned neu gyfarfod cymunedol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.
- (3) Y newidiadau y caiff prif gyngor eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw –
 - (a) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol, a
 - (b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned, y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol –
 - (i) y gymuned neu'r cymunedau sydd o dan adolygiad,
 - (ii) y brif ardal,
 y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (4) At ddibenion is-adran (3)(b)(ii), mae adran 30 yn gymwys i brif gyngor fel y mae'n gymwys i'r Comisiwn.
- (5) Caiff prif gyngor ymrwymo mewn cytundeb gyda'r Comisiwn er mwyn i'r Comisiwn (o dan adran 26) arfer swyddogaethau'r cyngor o dan yr adran hon.
- (6) Caiff y cytundeb fod ar y telerau a'r amodau hynny y mae'r prif gyngor a'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.

26 Adolygu ffiniau cymuned gan y Comisiwn

- (1) Caiff y Comisiwn, yn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), gynnal adolygiad o un neu ragor o gymunedau mewn prif ardal.

24 Review of principal areas following new town order

- (1) This section applies where, under section 1 of the New Towns Act 1981 (c. 64) (designation of areas of land for new towns) –
 - (a) the Welsh Ministers have made an order which designates any area of land as the site of a new town, and
 - (b) the area of the new town so designated is not wholly comprised within a principal area.
- (2) The Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable after the date of operation of the order, give notice to the Commission specifying the principal areas affected by the order.
- (3) The Commission must, on receipt of a notice under subsection (2), conduct a review under section 23 of any principal areas specified in the notice.

Communities

25 Review of community boundaries by principal council

- (1) A principal council may conduct a review of one or more communities in its area –
 - (a) of its own initiative, or
 - (b) at the request of –
 - (i) a community council in its area, or
 - (ii) a community meeting in its area.
- (2) But a principal council must not conduct a review under subsection (1) at the request of a community council or a community meeting if it considers that doing so would impede the proper exercise of its functions.
- (3) The changes that a principal council may recommend in relation to a review under this section are –
 - (a) such community boundary changes as it considers appropriate, and
 - (b) in consequence of any community boundary changes, such community council changes and associated changes to the electoral arrangements of –
 - (i) the community or communities under review,
 - (ii) the principal area,as it considers appropriate.
- (4) For the purposes of subsection (3)(b)(ii), section 30 applies to a principal council as it applies to the Commission.
- (5) A principal council may enter into an agreement with the Commission for the Commission (under section 26) to exercise the council's functions under this section.
- (6) The agreement may be on such terms and conditions as the principal council and the Commission consider appropriate.

26 Review of community boundaries by the Commission

- (1) The Commission may, in any of the circumstances described in subsection (2), conduct a review of one or more communities in a principal area.

- (2) Yr amgylchiadau yw –
- (a) pan fo'r Comisiwn wedi cytuno i arfer swyddogaethau prif gyngor o dan adran 25(5),
 - (b) pan fo prif gyngor wedi cyflwyno argymhellion i'r Comisiwn o dan adran 36(5) ac –
 - (i) argymhelliad y cyngor yw na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned,
 - (ii) nad yw'r cyngor a'r Comisiwn yn gallu cytuno ar yr addasiadau hynny i'r argymhellion y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn angenrheidiol iddo eu gweithredu,
 - (iii) nad yw'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i weithredu unrhyw un neu ragor o argymhellion y cyngor, neu
 - (iv) bod y Comisiwn o'r farn na chafodd yr adolygiad ei gynnal gan y cyngor yn unol â'r Rhan hon neu fel arall ei fod yn ddiffygiol mewn modd sylweddol,
 - (c) pan na fo prif gyngor wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o un neu ragor o'i gymunedau.
- (3) Y newidiadau y caiff Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw –
- (a) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol, a
 - (b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned, y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol –
 - (i) y gymuned neu'r cymunedau sydd dan adolygiad,
 - (ii) y brif ardal,
 y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (4) Pan fo'r Comisiwn yn cynnal adolygiad yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2)(b)(iv) neu (c), caiff adennill y gost o wneud hynny oddi wrth y prif gyngor.
- (5) Os bydd anghytundeb rhwng y Comisiwn a'r prif gyngor ynghylch y swm sy'n daladwy i'r Comisiwn o dan is-adran (4), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu'r swm hwnnw.
- (6) O ran unrhyw swm sy'n daladwy i'r Comisiwn o dan yr adran hon, mae modd ei adennill fel dyled sy'n ddyledus i'r Comisiwn.

*Siroedd wedi eu cadw***27 Adolygu siroedd wedi eu cadw**

- (1) Caiff y Comisiwn gynnal adolygiad o un neu ragor o siroedd wedi eu cadw.
- (2) Caiff y Comisiwn argymell y newidiadau hynny i ardal sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (3) Wrth ystyried a yw newidiadau i ardal y sir sydd wedi ei chadw yn rhai priodol (p'un ai mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon neu fel rhan o unrhyw adolygiad arall) rhaid i'r Comisiwn roi sylw, yn benodol, i'r dibenion dros gadw'r siroedd sydd wedi eu cadw.

- (2) The circumstances are –
- (a) where the Commission has agreed to exercise a principal council’s functions under section 25(5),
 - (b) where a principal council has submitted recommendations to the Commission under section 36(5) and –
 - (i) the council’s recommendation is that no community boundary changes should be made,
 - (ii) the council and the Commission are unable to agree to such modifications to the recommendations as the Commission considers necessary for it to implement them,
 - (iii) the Commission does not consider it appropriate to implement any of the council’s recommendations, or
 - (iv) the Commission considers that the review has not been conducted by the council in accordance with this Part or has otherwise been defective in some material way,
 - (c) where a principal council has not complied with a direction by the Welsh Ministers to conduct a review of one or more of its communities.
- (3) The changes that the Commission may recommend in relation to a review under this section are –
- (a) such community boundary changes as it considers appropriate, and
 - (b) in consequence of any community boundary changes, such community council changes and associated changes to the electoral arrangements of –
 - (i) the community or communities under review,
 - (ii) the principal area,as it considers appropriate.
- (4) Where the Commission conducts a review in the circumstances described in subsection (2)(b)(iv) or (c), it may recover the cost of doing so from the principal council.
- (5) In the event of a disagreement between the Commission and the principal council as to the amount payable to the Commission under subsection (4), the Welsh Ministers may determine that amount.
- (6) Any sum payable to the Commission under this section is recoverable as a debt due to the Commission.

Preserved counties

27 Review of preserved counties

- (1) The Commission may conduct a review of one or more preserved counties.
- (2) The Commission may recommend such changes to the area of a preserved county as it considers appropriate.
- (3) In considering whether changes to the area of the preserved county are appropriate (whether in relation to a review under this section or as part of any other review) the Commission must have regard, in particular, to the purposes for which the preserved counties are retained.

- (4) At ddibenion y Rhan hon, ystyr “sir wedi ei chadw” yw unrhyw sir a grëwyd gan Ddeddf 1972 yn sir yng Nghymru fel yr oedd hi yn union cyn pasio Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ond yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf honno neu unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan Ddeddf 1972 neu’r Ddeddf hon a bod y ddarpariaeth honno’n ail-lunio ei ffiniau.

Ffiniau tua’r môr

28 Adolygu ffiniau tua’r môr

- (1) Caiff y Comisiwn gynnal adolygiad o gymaint o ffin ardal llywodraeth leol (sy’n cynnwys, at ddibenion yr adran hon, sir wedi ei chadw) –
- sy’n gorwedd o dan farc penllanw pan fo’r llanw’n ganolig, a
 - nad yw’n ffurfio ffin gyffredin ag ardal llywodraeth leol arall.
- (2) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw –
- cynnwys o fewn yr ardal llywodraeth leol unrhyw ardal o’r môr nad yw, ar adeg yr adolygiad, yn ffurfio rhan o ardal llywodraeth leol arall, a
 - allgáu unrhyw ardal o’r môr sydd, ar adeg yr adolygiad, yn ffurfio rhan o’r ardal llywodraeth leol.

PENNOD 3

ADOLYGIADAU O DREFNIADAU ETHOLIADOL

Prif ardaloedd

29 Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal

- (1) Rhaid i’r Comisiwn gynnal adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu.
- (2) Rhaid i’r Comisiwn, mewn perthynas â phob cyfnod adolygu –
- paratoi a chyhoeddi rhaglen sy’n nodi ei amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal yr holl adolygiadau sy’n ofynnol o dan is-adran (1) yn ystod y cyfnod, a
 - anfon copi o’r rhaglen at Weinidogion Cymru.
- (3) At ddibenion is-adrannau (1) a (2) ystyr “cyfnod adolygu” yw –
- y cyfnod o 10 mlynedd sy’n dechrau gyda’r diwrnod pryd y daw’r adran hon i rym, a
 - pob cyfnod dilynol o 10 mlynedd.
- (4) Rhaid i’r Comisiwn gydymffurfio â’i ddyletswyddau yn is-adran (2) –
- mewn perthynas â’r cyfnod adolygu cyntaf, cyn gynted ag y bo modd wedi iddo ddechrau, a
 - mewn perthynas â phob cyfnod adolygu dilynol, cyn i’r cyfnod ddechrau.
- (5) Caiff y Comisiwn hefyd, o’i wirfodd neu ar gais prif gyngor, gynnal adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal.

- (4) For the purposes of this Part, “preserved county” means any county created by the 1972 Act as a county in Wales as it stood immediately before the passing of the Local Government (Wales) Act 1994 but subject to any provision of that Act or any provision made under the 1972 Act or this Act redrawing its boundaries.

Seaward boundaries

28 Review of seaward boundaries

- (1) The Commission may conduct a review of so much of the boundary of a local government area (which includes, for the purposes of this section, a preserved county) as—
- (a) lies below the high-water mark of medium tides, and
 - (b) does not form a common boundary with another local government area.
- (2) The changes that the Commission may recommend in relation to a review under this section are—
- (a) the inclusion within the local government area of any area of the sea which, at the time of the review, does not form part of another local government area, and
 - (b) the exclusion of any area of the sea which, at the time of the review, forms part of the local government area.

CHAPTER 3

ELECTORAL ARRANGEMENTS REVIEWS

Principal areas

29 Review of electoral arrangements for principal area

- (1) The Commission must conduct a review of the electoral arrangements for each principal area at least once in every review period.
- (2) The Commission must, in respect of each review period—
- (a) prepare and publish a programme which sets out its proposed timetable for conducting all the reviews required under subsection (1) during the period, and
 - (b) send a copy of the programme to the Welsh Ministers.
- (3) For the purposes of subsections (1) and (2) “review period” means—
- (a) the period of 10 years beginning with the day on which this section comes into force, and
 - (b) each subsequent period of 10 years.
- (4) The Commission must comply with its duties in subsection (2)—
- (a) in respect of the the first review period, as soon as possible after it begins, and
 - (b) in respect of each subsequent review period, before the period begins.
- (5) The Commission may also, of its own initiative or at the request of a principal council, conduct a review of the electoral arrangements for a principal area.

- (6) Ond rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (5) ar gais prif gyngor os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.
- (7) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymhell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw –
- (a) y newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal sydd dan adolygiad y mae o'r farn eu bod yn briodol, a
 - (b) o ganlyniad i newid o'r fath –
 - (i) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas ag unrhyw gymuned yn y brif ardal,
 - (ii) y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o'r fath y mae o'r farn eu bod yn briodol,
 - (iii) y newidiadau hynny i sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (8) Rhaid i'r Comisiwn beidio â gwneud neu gyhoeddi, yn unrhyw gyfnod o 9 mis cyn diwrnod etholiad arferol cyngor o dan adran 26 o Ddeddf 1972 (ethol cynghorwyr), unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol prif ardal.
- (9) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at drefniadau etholiadol prif ardal yn gyfeiriad at y canlynol –
- (a) nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y brif ardal,
 - (b) nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y rhennir y brif ardal iddynt am y tro at ddibenion ethol aelodau,
 - (c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol yn y brif ardal honno, a
 - (d) enw unrhyw ward etholiadol.
- (10) At ddibenion is-adran (9)(b), mae cyfeiriad at y math o ward etholiadol yn gyfeiriad at a yw'r ward yn ward un aelod neu'n ward amlaelod.
- (11) Yn y Rhan hon –
- ystyr "ward amlaelod" yw unrhyw ward etholiadol y mae nifer penodedig (mwy nag un) o aelodau i'w hethol ar gyfer y ward honno,
 - ystyr "ward etholiadol" yw unrhyw ardal yr etholir aelodau i awdurdod lleol ar ei chyfer, ac
 - ystyr "ward un aelod" yw ward etholiadol y mae un aelod yn unig i'w ethol ar ei chyfer.

30 Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal

- (1) Rhaid i'r Comisiwn, wrth ystyried a fydd yn gwneud argymhellion ynghylch newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal –
- (a) ceisio sicrhau bod yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly,
 - (b) rhoi sylw i'r canlynol –

- (6) But the Commission must not conduct a review under subsection (5) at the request of a principal council if it considers that doing so would impede the proper exercise of its functions.
- (7) The changes that the Commission may recommend in relation to a review under this section are –
 - (a) such changes to the electoral arrangements for the principal area under review as appears to it appropriate, and
 - (b) in consequence of such change –
 - (i) such community boundary changes as it considers appropriate in relation to any community in the principal area,
 - (ii) such community council changes and changes to the electoral arrangements for such a community as it considers appropriate,
 - (iii) such preserved county changes as it considers appropriate.
- (8) The Commission must not, in any period of 9 months preceding the day of an ordinary council election under section 26 of the 1972 Act (elections of councillors), make or publish any recommendations relating to the electoral arrangements of a principal area.
- (9) In this Part, a reference to the electoral arrangements of a principal area is a reference to –
 - (a) the number of members of the council for the principal area,
 - (b) the number, type and boundaries of the electoral wards into which the principal area is for the time being divided for the purpose of the election of members,
 - (c) the number of members to be elected for any electoral ward in the principal area, and
 - (d) the name of any electoral ward.
- (10) For the purposes of subsection (9)(b), a reference to the type of an electoral ward is a reference to whether the ward is a single or multiple member ward.
- (11) In this Part –

“electoral ward” means any area for which members are elected to a local authority,

“multiple member ward” means an electoral ward in respect of which a specified number (greater than one) of members are to be elected for that ward, and

“single member ward” means an electoral ward in respect of which only one member is to be elected.

30 Considerations for a review of principal area electoral arrangements

- (1) The Commission, in considering whether to make recommendations for changes to the electoral arrangements for a principal area, must –
 - (a) seek to ensure that the ratio of local government electors to the number of members of the council to be elected is, as nearly as may be, the same in every electoral ward of the principal area,
 - (b) have regard to –

- (i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly,
 - (ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.
- (2) At ddibenion is-adran (1)(a), rhaid rhoi sylw i'r canlynol –
- (a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol), a
 - (b) unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl gwneud unrhyw argymhelliad.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr "ystadegau swyddogol perthnasol" yw'r ystadegau swyddogol hynny o fewn yr ystyr a roddir i "official statistics" yn adran 6 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18) y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.
- (4) Yn y Rhan hon, ystyr "etholwr llywodraeth leol" yw person sydd wedi ei gofrestru'n etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl.

Cymunedau

31 Adolygu trefniadau etholiadol i gymuned gan brif gyngor

- (1) Caiff prif gyngor gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned yn ei ardal –
- (a) o'i wirfodd, neu
 - (b) ar gais –
 - (i) y cyngor cymuned ar gyfer y gymuned, neu
 - (ii) dim llai na 30 o etholwyr llywodraeth leol sydd wedi eu cofrestru yn y gymuned.
- (2) Ond rhaid i brif gyngor beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) ar gais y cyngor cymuned neu etholwyr llywodraeth leol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.
- (3) Y newidiadau y caiff prif gyngor eu cynnig a'u gwneud mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon –
- (a) yw'r newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned y mae'r prif gyngor o'r farn eu bod yn briodol, a
 - (b) o ganlyniad i unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned, y newidiadau hynny i drefniadau etholiadol y brif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (4) At ddibenion is-adran (3)(b), mae adran 30 yn gymwys i brif gyngor fel y mae'n gymwys i'r Comisiwn.
- (5) Caiff prif gyngor ymrwymo mewn cytundeb gyda'r Comisiwn er mwyn i'r Comisiwn (o dan adran 32) arfer swyddogaeth y cyngor o gynnal adolygiadau o dan yr adran hon.

- (i) the desirability of fixing boundaries for electoral wards which are and will remain easily identifiable,
 - (ii) the desirability of not breaking local ties when fixing boundaries for electoral wards.
- (2) For the purposes of subsection (1)(a), account is to be taken of—
- (a) any discrepancy between the number of local government electors and the number of persons that are eligible to be local government electors (as indicated by relevant official statistics), and
 - (b) any change to the number or distribution of local government electors in the principal area which is likely to take place in the period of five years immediately following the making of any recommendation.
- (3) In this section, “relevant official statistics” means such official statistics within the meaning of section 6 of the Statistics and Registration Service Act 2007 (c. 18) as the Commission considers appropriate.
- (4) In this Part, “local government elector” means a person registered as a local government elector in the register of electors in accordance with the provisions of the Representation of the People Acts.

Communities

31 Review of electoral arrangements for community by principal council

- (1) A principal council may conduct a review of the electoral arrangements for a community in its area—
- (a) of its own initiative, or
 - (b) at the request of—
 - (i) the community council for the community, or
 - (ii) not less than 30 local government electors registered in the community.
- (2) But a principal council must not conduct a review under subsection (1) at the request of the community council or local government electors if it considers that doing so would impede the proper exercise of its functions.
- (3) The changes that a principal council may propose and make in relation to a review under this section are—
- (a) such changes to the electoral arrangements for the community as the principal council considers appropriate, and
 - (b) in consequence of any change to the electoral arrangements for the community, such changes to the electoral arrangements of the principal area as it considers appropriate.
- (4) For the purposes of subsection (3)(b), section 30 applies to a principal council as it applies to the Commission.
- (5) A principal council may enter into an agreement with the Commission for the Commission (under section 32) to exercise the council’s function of conducting reviews under this section.

- (6) Caiff y cytundeb fod ar y telerau a'r amodau hynny y mae'r prif gyngor a'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.
- (7) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at drefniadau etholiadol cymuned yn gyfeiriad at y canlynol—
 - (a) nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y gymuned;
 - (b) ei rhaniad yn wardiau (os yw'n briodol) at ddibenion ethol cyngorwyr;
 - (c) nifer a ffiniau unrhyw wardiau;
 - (d) nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward;
 - (e) enw unrhyw ward.

32 Adolygu trefniadau etholiadol cymuned gan y Comisiwn

- (1) Caiff y Comisiwn, yn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned.
- (2) Yr amgylchiadau yw—
 - (a) pan fo'r Comisiwn wedi cytuno i arfer swyddogaeth prif gyngor o gynnal adolygiadau o dan adran 31(5);
 - (b) pan ofynnwyd i'r Comisiwn gynnal adolygiad o gymuned gan—
 - (i) y cyngor cymuned, neu
 - (ii) dim llai na 30 o etholwyr llywodraeth leol o'r gymuned;
 - (c) pan na fo prif gyngor wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer un neu ragor o'i gymunedau.
- (3) Ond rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) yn dilyn cais gan gyngor cymuned neu etholwyr llywodraeth leol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.
- (4) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o dan yr adran hon—
 - (a) yw'r newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol, a
 - (b) o ganlyniad i unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned, y newidiadau hynny i drefniadau etholiadol y brif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (5) Pan fo'r Comisiwn yn cynnal adolygiad yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2) (c), caiff adennill y gost am wneud hynny oddi wrth y prif gyngor.
- (6) Os bydd anghytundeb rhwng y Comisiwn a'r prif gyngor ynghylch y swm sy'n daladwy i'r Comisiwn o dan is-adran (5), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu'r swm hwnnw.
- (7) O ran unrhyw swm sy'n daladwy i'r Comisiwn o dan yr adran hon, mae modd ei adennill fel dyled sy'n ddyledus i'r Comisiwn.

- (6) The agreement may be on such terms and conditions as the principal council and the Commission consider appropriate.
- (7) In this Part, a reference to the electoral arrangements of a community is a reference to—
 - (a) the number of members of the council for the community;
 - (b) its division into wards (if appropriate) for the purposes of the election of councillors;
 - (c) the number and boundaries of any wards;
 - (d) the number of members to be elected for any ward;
 - (e) the name of any ward.

32 Review of electoral arrangements for community by the Commission

- (1) The Commission may, in any of the circumstances described in subsection (2), conduct a review of the electoral arrangements for a community.
- (2) The circumstances are—
 - (a) where the Commission has agreed to exercise a principal council's function of conducting reviews under section 31(5);
 - (b) where the Commission has been requested to conduct a review of a community by—
 - (i) the community council, or
 - (ii) not less than 30 local government electors from the community;
 - (c) where a principal council has not complied with a direction by the Welsh Ministers to conduct a review of the electoral arrangements for one or more of its communities.
- (3) But the Commission must not conduct a review under subsection (1) following a request by a community council or local government electors if it considers that doing so would impede the proper exercise of its functions.
- (4) The changes that the Commission may recommend in relation to any review under this section are—
 - (a) such changes to the electoral arrangements for the community that the Commission considers appropriate, and
 - (b) in consequence of any change to the electoral arrangements for the community, such changes to the electoral arrangements of the principal area, as it considers appropriate.
- (5) Where the Commission conducts a review in the circumstances described in subsection (2)(c), it may recover the cost of doing so from the principal council.
- (6) In the event of a disagreement between the Commission and the principal council as to the amount payable to the Commission under subsection (5), the Welsh Ministers may determine that amount.
- (7) Any sum payable to the Commission under this section is recoverable as a debt due to the Commission.

33 Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo prif gyngor yn ystyried gwneud neu, yn ôl y digwydd, pan fo'r Comisiwn yn ystyried argymhell, newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned.
- (2) Wrth ystyried a ddylid rhannu cymuned yn wardiau cymuned, rhaid rhoi sylw i'r canlynol—
 - (a) a yw nifer neu ddsbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned yn y fath fodd sy'n gwneud un etholiad o gynghorwyr cyngor cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus, a
 - (b) a yw'n ddymunol y dylai unrhyw ardal o'r gymuned gael cynrychiolaeth ar wahân ar y cyngor cymuned.
- (3) Pan benderfynir rhannu cymuned yn wardiau cymuned, wrth ystyried maint a ffiniau'r wardiau ac wrth bennu nifer y cynghorwyr cymuned sydd i'w hethol ar gyfer pob ward, dylid rhoi sylw i'r canlynol—
 - (a) unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl unrhyw argymhelliad,
 - (b) dymunoldeb pennu ffiniau sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly, ac
 - (c) unrhyw gwlwm lleol a fydd yn cael ei dorri wrth bennu ffiniau penodol.
- (4) Pan benderfynir peidio â rhannu cymuned yn wardiau cymuned, wrth bennu nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob cymuned, dylid rhoi sylw i'r canlynol—
 - (a) nifer a dosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned, a
 - (b) unrhyw newid yn y nifer neu'r dosbarthiad hwnnw sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl pennu nifer y cynghorwyr cymuned.
- (5) At ddibenion yr adran hon, rhaid rhoi sylw i unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol).
- (6) Yn yr adran hon, ystyr "ystadegau swyddogol perthnasol" yw'r ystadegau swyddogol hynny (o fewn yr ystyr a roddir i "official statistics" yn adran 6 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18)) y mae'r Comisiwn, neu yn ôl y digwydd, y prif gyngor o'r farn eu bod yn briodol.

PENNOD 4**Y WEITHDREFN AR GYFER ADOLYGIADAU LLYWODRAETH LEOL***Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau***34 Y weithdrefn ragadolygu**

- (1) Cyn cynnal adolygiad o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor gymryd y camau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol er mwyn—
 - (a) dod â'r adolygiad i sylw ymgyngoreion gorfodol ac unrhyw berson arall y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd ganddynt fuddiant yn yr adolygiad, a

33 Considerations for a review of community electoral arrangements

- (1) This section applies where a principal council is considering making or, as the case may be, the Commission is considering recommending, changes to the electoral arrangements for a community.
- (2) In considering whether a community should be divided into community wards, regard is to be had to—
 - (a) whether the number or distribution of the local government electors for the community is such as to make a single election of community councillors impractical or inconvenient, and
 - (b) whether it is desirable that any area of the community should be separately represented on the community council.
- (3) Where it is decided to divide a community into community wards, in considering the size and boundaries of the wards and in fixing the number of community councillors to be elected for each ward, regard is to be had to—
 - (a) any change in the number or distribution of local government electors of the community which is likely to take place within the period of five years immediately following any recommendation,
 - (b) the desirability of fixing boundaries which are and will remain easily identifiable, and
 - (c) any local ties which will be broken by the fixing of any particular boundaries.
- (4) Where it is decided not to divide a community into community wards, in fixing the number of councillors to be elected for each community, regard is to be had to—
 - (a) the number and distribution of local government electors in the community, and
 - (b) any change in such number or distribution which is likely to take place within the period of five years immediately following the fixing of the number of community councillors.
- (5) For the purposes of this section, account is to be taken of any discrepancy between the number of local government electors and number of persons that are eligible to be local government electors (as indicated by relevant official statistics).
- (6) In this section, “relevant official statistics” means such official statistics (within the meaning of section 6 of the Statistics and Registration Service Act 2007 (c. 18)) as the Commission, or as the case may be, principal council considers appropriate.

CHAPTER 4

PROCEDURE FOR LOCAL GOVERNMENT REVIEWS

Procedure for reviews

34 Pre-review procedure

- (1) Before conducting a review under this Part, the Commission or, as the case may be, a principal council must take such steps as it considers appropriate to—
 - (a) bring the review to the attention of the mandatory consultees and any other person it considers likely to be interested in the review, and

- (b) gwneud yr ymgynghoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae ganddynt fuddiant yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r adolygiad.
- (2) O ran adolygiad sydd i'w gynnal o dan adran 29, cyn cynnal yr adolygiad, rhaid i'r Comisiwn hefyd ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol ynghylch y weithdrefn a'r fethodoleg a fwriedir ar gyfer yr adolygiad ac, yn benodol, sut y mae'n bwriadu penderfynu nifer priodol yr aelodau ar gyfer unrhyw brif gyngor yn y brif ardal neu'r ardaloedd sydd dan adolygiad.
- (3) At ddibenion y Rhan hon, yr "ymgynghoreion gorfodol" yw –
 - (a) unrhyw awdurdod lleol y mae'r adolygiad yn effeithio arno,
 - (b) ac eithrio mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 28 (adolygu ffiniau tua'r môr), comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer unrhyw ardal heddlu y gall yr adolygiad effeithio arni,
 - (c) ac eithrio pan fo'r adolygiad yn cael ei gynnal (neu i'w gynnal) ganddo ef, y Comisiwn,
 - (d) unrhyw gorff sy'n cynrychioli'r staff a gyflogir gan awdurdodau lleol sydd wedi gofyn am ymgynghoriad â hwy, a
 - (e) unrhyw bersonau eraill a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 26(2)(b)(ii) neu (iii).

35 Ymgynghori ac ymchwilio

- (1) Wrth gynnal adolygiad o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor ("y corff adolygu") –
 - (a) ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol, a
 - (b) cynnal yr ymchwiliadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol.
- (2) Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad a'r ymchwiliadau o dan is-adran (1), rhaid i'r corff adolygu lunio adroddiad sy'n cynnwys –
 - (a) unrhyw gynigion ar gyfer newid y mae o'r farn eu bod yn briodol neu, os yw o'r farn nad oes unrhyw newid yn briodol, cynnig i'r diben hwnnw,
 - (b) manylion o'r adolygiad y mae wedi ei gynnal.
- (3) Rhaid i'r corff adolygu –
 - (a) cyhoeddi'r adroddiad yn electronig,
 - (b) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd unrhyw brif gyngor sydd â buddiant yn yr adolygiad ar hyd y cyfnod ar gyfer sylwadau,
 - (c) anfon copiâu o'r adroddiad at Weinidogion Cymru a'r ymgynghoreion gorfodol,
 - (d) hysbysu unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth i'r corff adolygu sut i gael copi o'r adroddiad, ac

- (b) make the mandatory consultees and such other interested person aware of any directions given by the Welsh Ministers which are relevant to the review.
- (2) In relation to a review to be conducted under section 29, before conducting the review, the Commission must also consult the mandatory consultees on its intended procedure and methodology for the review and, in particular, on how it proposes to determine the appropriate number of members for any principal council in the principal area or areas under review.
- (3) For the purposes of this Part, the “mandatory consultees” are –
 - (a) any local authority affected by the review,
 - (b) except in relation to a review under section 28 (reviews of seaward boundaries), the police and crime commissioner for any police area which may be affected by the review,
 - (c) except where the review is (or is to be) conducted by it, the Commission,
 - (d) any organisation representing the staff employed by local authorities which has asked to be consulted, and
 - (e) such other persons as may be specified by order made by the Welsh Ministers.
- (4) Subsection (1) does not apply to a review conducted by the Commission in the circumstances described in section 26(2)(b)(ii) or (iii).

35 Consultation and investigation

- (1) In conducting a review under this Part, the Commission or, as the case may be, a principal council (“the reviewing body”) must –
 - (a) consult the mandatory consultees and such other persons as it considers appropriate, and
 - (b) conduct such investigations as it considers appropriate.
- (2) After carrying out the consultation and investigations under subsection (1), the reviewing body must prepare a report containing –
 - (a) any proposals for change it considers appropriate or, if it does not consider any change appropriate, a proposal to that effect,
 - (b) details of the review it conducted.
- (3) The reviewing body must –
 - (a) publish the report electronically,
 - (b) secure that the report is available for inspection (without charge) at the offices of any principal council with an interest in the review for the duration of the period for representations,
 - (c) send copies of the report to the Welsh Ministers and the mandatory consultees,
 - (d) inform any other person who submitted evidence to the reviewing body how to obtain a copy of the report, and

- (e) gwahodd sylwadau a hysbysu'r personau a grybwyllir yn (c) a (d) am y cyfnod ar gyfer sylwadau.
- (4) At ddibenion is-adran (3), y "cyfnod ar gyfer sylwadau" yw cyfnod nad yw'n llai na 6 wythnos, nac yn hwy na 12 wythnos (fel a benderfynir gan y corff adolygu) yn dechrau dim cynt nag un wythnos ar ôl rhoi hysbysiad am y cyfnod.
- (5) At ddibenion yr adran hon, mae gan brif gyngor fuddiant mewn adolygiad –
 - (a) os ef yw'r corff adolygu,
 - (b) os yw ei ardal dan adolygiad,
 - (c) os yw cymuned yn ei ardal (neu os yw'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned honno) dan adolygiad.
- (6) Yn yr adran hon ac yn adran 36 mae cyfeiriad at gynnig newid yn gyfeiriad at unrhyw newid y caiff y corff adolygu ei argymhell neu ei wneud (gan gynnwys newid canlyniadol) mewn perthynas â'r math o adolygiad sy'n cael ei gynnal.

36 Adrodd ar yr adolygiad

- (1) Rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor ("y corff adolygu"), ar ôl i'r cyfnod ar gyfer sylwadau o dan adran 35(3) ddod i ben, ystyried ei gynigion i newid gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd ganddo yn ystod y cyfnod.
- (2) Yna rhaid i'r corff adolygu lunio adroddiad pellach.
- (3) Ac eithrio mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 31, rhaid i'r adroddiad gynnwys –
 - (a) unrhyw argymhelliad i newid y mae'r corff adolygu o'r farn ei fod yn briodol, neu os yw o'r farn nad oes unrhyw newid yn briodol, argymhelliad i'r diben hwnnw,
 - (b) manylion yr adolygiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r cynigion, ac
 - (c) manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd ac esboniad paham y gwnaed y newidiadau hynny.
- (4) Pan fo adolygiad o dan adran 31, rhaid i'r adroddiad gynnwys –
 - (a) y newidiadau y mae'r corff adolygu yn bwriadu eu gwneud i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned dan adolygiad, neu os yw o'r farn nad yw newid o'r fath yn briodol, ddatganiad i'r diben hwnnw,
 - (b) manylion yr adolygiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r cynigion, ac
 - (c) manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau a gafodd ac esboniad paham y gwnaed y newidiadau hynny.
- (5) Rhaid i'r corff adolygu –
 - (a) cyflwyno'r adroddiad a'i argymhellion i'r awdurdod gweithredu priodol (ac eithrio pan ef yw'r awdurdod gweithredu),
 - (b) cyhoeddi'r adroddiad yn electronig a sicrhau ei fod ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd unrhyw brif gyngor sydd â buddiant am gyfnod sydd o leiaf yn 6 wythnos yn dechrau ar ddyddiad y cyhoeddi,
 - (c) anfon copi o'r adroddiad at yr ymgynghoreion gorfodol, yr Arolwg Ordnans ac (onid hwy yw'r awdurdod gweithredu) at Weinidogion Cymru,

- (e) invite representations and notify the persons mentioned in (c) and (d) of the period for representations.
- (4) For the purpose of subsection (3), the “period for representations” is a period of not less than 6, nor more than 12, weeks (as determined by the reviewing body) beginning no earlier than one week after notice of the period is given.
- (5) For the purposes of this section, a principal council has an interest in a review if—
 - (a) it is the reviewing body,
 - (b) its area is under review,
 - (c) a community in its area (or the electoral arrangements of such a community) is under review.
- (6) In this section and section 36 a reference to a proposal for change is a reference to any change that the reviewing body may recommend or make (including consequential change) in relation to the type of review being conducted.

36 Reporting on review

- (1) The Commission or, as the case may be, a principal council (“the reviewing body”) must, after the period for representations under section 35(3) has ended, consider its proposals for change having regard to any representations received by it during the period.
- (2) The reviewing body must then prepare a further report.
- (3) Except in relation to a review under section 31, the report must contain—
 - (a) any recommendation for change which the reviewing body considers appropriate or, if it does not consider any change appropriate, a recommendation to that effect,
 - (b) details of the review conducted and the consultation carried out in respect of the proposals, and
 - (c) details of any changes to the proposals made in light of the representations received and an explanation of why those changes have been made.
- (4) Where the review is under section 31, the report must contain—
 - (a) the changes the reviewing body intends to make to the electoral arrangements for the community under review, or if it does not consider that any such change is appropriate, a statement to that effect,
 - (b) details of the review conducted and the consultation carried out in respect of the proposals, and
 - (c) details of any changes to the proposals made in light of the representations it received and an explanation of why those changes have been made.
- (5) The reviewing body must—
 - (a) submit the report and its recommendations to the appropriate implementing authority (except where it is the implementing authority),
 - (b) publish the report electronically and secure that it is available for inspection (without charge) at the offices of any principal council with an interest for a period of at least 6 weeks beginning with the date of publication,
 - (c) send a copy of the report to the mandatory consultees, Ordnance Survey and (unless they are the implementing authority) the Welsh Ministers,

- (d) hysbysu unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth neu a wnaeth sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad a gyhoeddwyd o dan adran 35 sut i gael copi o'r adroddiad.
- (6) At ddibenion is-adran (5), yr "awdurdod gweithredu priodol" yw –
 - (a) mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 23, Gweinidogion Cymru ac, mewn achos pan fo'r Comisiwn yn argymhell newid i ardal heddlu, yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau y mae'n ymwneud â'r newid hwnnw);
 - (b) mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 25, y Comisiwn;
 - (c) mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 26, 27, 28 neu 29, Gweinidogion Cymru;
 - (d) mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 32, prif gyngor y gymuned a fu'n destun yr adolygiad.
- (7) Pan fo prif gyngor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 25, nid yw'r Comisiwn i gael ei drin fel ymgynghorai gorfodol at ddibenion is-adran (5)(c).
- (8) At ddibenion yr adran hon mae gan brif gyngor fuddiant mewn adolygiad –
 - (a) os ef yw'r corff adolygu;
 - (b) os yw ei ardal dan adolygiad;
 - (c) os yw cymuned yn ei ardal (neu os yw'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned honno) dan adolygiad.
- (9) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at argymhelliad i newid yn gyfeiriad at unrhyw newid y caiff y corff adolygu ei argymhell neu ei wneud (gan gynnwys newid canlyniadol) mewn perthynas â'r math o adolygiad sy'n cael ei gynnal.

PENNOD 5

GWEITHREDU YN DILYN ADOLYGIAD

Gweithredu gan Weinidogion Cymru

37 **Gweithredu gan Weinidogion Cymru**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael adroddiad sy'n cynnwys argymhellion oddi wrth y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad a gynhaliwyd o dan adran 23, 26, 27, 28 neu 29, neu gais am weithredu ei argymhellion o dan adran 39(7) –
 - (a) drwy orchymyn weithredu unrhyw argymhelliad, gydag addasiadau neu hebddynt, neu
 - (b) penderfynu peidio â gweithredu.
- (2) Er hynny, ni chaiff Gweinidogion Cymru weithredu argymhelliad gydag addasiadau oni bai ei fod –
 - (a) mewn achos sy'n ymwneud ag argymhellion i newid trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal, os ydynt wedi ystyried y materion a ddisgrifir yn adran 30 ac wedi eu bodloni ei bod yn briodol i wneud yr addasiad,

- (d) inform any other person who submitted evidence or made representations in relation to the report published under section 35 how to obtain a copy of the report.
- (6) For the purposes of subsection (5), the “appropriate implementing authority” is—
 - (a) in relation to a review under section 23, the Welsh Ministers and, in a case where the Commission are making a recommendation for change to a police area, the Secretary of State (in so far as relating to that change);
 - (b) in relation to a review under section 25, the Commission;
 - (c) in relation to a review under section 26, 27, 28 or 29, the Welsh Ministers;
 - (d) in relation to a review under section 32, the principal council of the community which has been the subject of the review.
- (7) Where the principal council submits a report to the Commission in relation to a review under section 25, the Commission is not to be treated as a mandatory consultee for the purposes of subsection (5)(c).
- (8) For the purposes of this section a principal council has an interest in a review if—
 - (a) it is the reviewing body;
 - (b) its area is under review;
 - (c) a community in its area (or the electoral arrangements of such a community) is under review.
- (9) In this section, a reference to a recommendation for change is a reference to any change that the reviewing body may recommend or make (including consequential change) in relation to the type of review being conducted.

CHAPTER 5

IMPLEMENTATION FOLLOWING REVIEW

Implementation by the Welsh Ministers

37 Implementation by the Welsh Ministers

- (1) The Welsh Ministers may, after receiving a report containing recommendations from the Commission in relation to a review conducted under section 23, 26, 27, 28 or 29, or a request for implementation of its recommendations under section 39(7) —
 - (a) by order implement any recommendation, with or without modification, or
 - (b) decide to take no action.
- (2) But the Welsh Ministers may only implement a recommendation with modification if —
 - (a) in a case involving recommendations for change to electoral arrangements for a principal area, they have considered the matters described in section 30 and are satisfied that it is appropriate to make the modification,

- (b) mewn achos sy'n ymwneud ag argymhellion i newid trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned, os ydynt wedi ystyried y materion a ddisgrifir yn adran 33 ac wedi eu bodloni ei bod yn briodol i wneud yr addasiad, ac
 - (c) mewn unrhyw achos, os ydynt wedi eu bodloni bod yr addasiad er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- (3) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1)(a) nes bod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd Gweinidogion Cymru yr argymhellion wedi dod i ben.
- (4) Rhaid i'r Comisiwn roi'r wybodaeth bellach honno i Weiniogion Cymru mewn perthynas â'i argymhellion fel y bo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn rhesymol ofynnol.

Gweithredu anweinidogol

38 Gweithredu newid i ffin cymuned

- (1) Caiff y Comisiwn, ar ôl iddo gael adroddiad yn cynnwys argymhellion i newid oddi wrth brif gyngor mewn perthynas ag adolygiad a gynhaliwyd o dan adran 25 –
- (a) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion heb addasiadau,
 - (b) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion gyda'r addasiadau hynny y mae'r prif gyngor yn cytuno arnynt, neu
 - (c) yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 26(2)(b)(ii) neu (iii), gynnal ei adolygiad ei hun.
- (2) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) nes bod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Comisiwn argymhellion y prif gyngor wedi dod i ben.
- (3) Dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) sy'n cynnwys newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal.
- (4) Rhaid i'r prif gyngor a wnaeth yr argymhellion roi i'r Comisiwn yr wybodaeth bellach honno mewn perthynas â'r argymhellion neu'r weithdrefn a ddilynwyd fel y bo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn rhesymol ofynnol.

39 Gweithredu newid i drefniadau etholiadol cymuned

- (1) Caiff prif gyngor, drwy orchymyn, weithredu'r newidiadau a ddisgrifir mewn adroddiad a luniwyd gan y cyngor o dan adran 36(4).
- (2) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) tan ddiwedd cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddodd y prif gyngor ei adroddiad.
- (3) Caiff prif gyngor, ar ôl cael adroddiad sy'n cynnwys yr argymhellion ar gyfer newid oddi wrth y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 32 –
- (a) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion heb addasiadau,
 - (b) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion gyda'r addasiadau hynny y cytunir arnynt â'r Comisiwn,
 - (c) penderfynu peidio â gweithredu a hysbysu'r Comisiwn yn unol â hynny.
- (4) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (3) tan ddiwedd cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r cyngor yn cael yr adroddiad.

- (b) in a case involving recommendations for change to electoral arrangements for a community, they have considered the matters described in section 33 and are satisfied that it is appropriate to make the modification, and
 - (c) in any case, they are satisfied that the modification is in the interests of effective and convenient local government.
- (3) No order may be made under subsection (1)(a) until the expiry of a period of 6 weeks beginning with the date on which the Welsh Ministers receive the recommendations.
 - (4) The Commission must provide the Welsh Ministers with such further information in relation to its recommendations as the Welsh Ministers may reasonably require.

Non-ministerial implementation

38 Implementation of community boundary change

- (1) The Commission may, after receiving a report containing recommendations for change from a principal council in relation to a review conducted under section 25 –
 - (a) by order implement the recommendations without modification,
 - (b) by order implement the recommendations with such modification as may be agreed with the principal council, or
 - (c) in the circumstances described in section 26(2)(b)(ii) or (iii), conduct its own review.
- (2) No order may be made under subsection (1) until the expiry of a period of 6 weeks beginning with the date on which the Commission receives the principal council's recommendations.
- (3) An order under subsection (1) which contains changes to the electoral arrangements of a principal area may be made only with the consent of the Welsh Ministers.
- (4) The principal council which made the recommendations must provide the Commission with such further information in relation to the recommendations or the procedure followed as it may reasonably require.

39 Implementation of community electoral arrangements change

- (1) A principal council may by order implement the changes described in a report prepared by the council under section 36(4).
- (2) No order may be made under subsection (1) until the expiry of a period of 6 weeks beginning with the date on which the principal council published its report.
- (3) A principal council may, after receiving a report containing recommendations for change from the Commission in relation to a review under section 32 –
 - (a) by order implement the recommendations without modification,
 - (b) by order implement the recommendations with such modification as may be agreed with the Commission,
 - (c) decide to take no action and notify the Commission accordingly.
- (4) No order may be made under subsection (3) until the expiry of a period of 6 weeks beginning with the date on which the council receives the report.

- (5) Dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) neu (3) sy'n cynnwys newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal.
- (6) Mae is-adran (7) yn gymwys—
 - (a) pan fo'r prif gyngor wedi hysbysu'r Comisiwn nad yw'n bwriadu gweithredu mewn cysylltiad â'r argymhellion, neu
 - (b) pan na fo'r prif gyngor wedi gwneud gorchymyn (gydag addasiadau neu hebddynt) o fewn y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y cyngor argymhellion y Comisiwn.
- (7) Caiff y Comisiwn ofyn i Weinidogion Cymru weithredu'r argymhellion o dan adran 37.

Darpariaeth bellach ynghylch gweithredu a gorchmynion gweithredu

40 Gorchmynion gweithredu: darpariaeth ganlyniadol

- (1) Caniateir i orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu brif gyngor o dan adran 37, 38, 39 neu 43 wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol neu drosiannol sy'n angenrheidiol neu'n hwylus yn eu barn hwy neu ei farn ef.
- (2) Caniateir i'r gorchmynion hynny, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch—
 - (a) enw unrhyw ardal neu ward etholiadol sydd wedi ei newid;
 - (b) cyfanswm nifer y cynghorwyr, dosraniad cynghorwyr ymhlith wardiau etholiadol, neilltuo cynghorwyr presennol i wardiau etholiadol newydd neu wardiau etholiadol sydd wedi eu newid ac etholiad cyntaf cynghorwyr i unrhyw ward etholiadol newydd neu unrhyw ward etholiadol sydd wedi ei newid;
 - (c) cynnal etholiad newydd i gynghorwyr ar gyfer pob ward etholiadol yn yr ardal llywodraeth leol dan sylw;
 - (d) y drefn ar gyfer ymddeoliad cynghorwyr ar gyfer ward etholiadol;
 - (e) cyfansoddiad unrhyw gorff cyhoeddus mewn unrhyw ardal neu ward etholiadol y mae'r gorchymyn yn effeithio arni, etholiad iddo ac aelodaeth ohono;
 - (f) unrhyw un neu ragor o'r materion a ddisgrifir yn adran 41(2).
- (3) Dim ond o ganlyniad i newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardal a wnaed yn dilyn adolygiad o dan Bennod 3 y caniateir gwneud darpariaeth o'r math a ddisgrifir yn is-adran (2)(c).
- (4) Caiff gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 37 neu 43 gymhwyso neu addasu unrhyw ddeddfiad neu siarter.
- (5) Nid oes dim yn yr adran hon yn rhagfarnu cyffredinolrwydd adran 71 (gorchmynion a rheoliadau).
- (6) Yn yr adran hon—

mae "corff cyhoeddus" yn cynnwys—

 - (a) awdurdod lleol,

- (5) An order under subsection (1) or (3) which contains changes to the electoral arrangements of a principal area may be made only with the consent of the Welsh Ministers.
- (6) Subsection (7) applies where—
 - (a) the principal council has notified the Commission that it does not intend to take any action in respect of the recommendations, or
 - (b) the principal council has not made an order (with or without modification) within the period of 6 months beginning with the date on which the council received the Commission's recommendations.
- (7) The Commission may request the Welsh Ministers implement the recommendations under section 37.

Further provision about implementation and implementation orders

40 Implementation orders: consequential provision

- (1) An order made by the Welsh Ministers, the Commission or a principal council under section 37, 38, 39 or 43 may make such incidental, consequential, supplemental or transitional provision as they consider necessary or expedient.
- (2) Such orders may, in particular, make provision about—
 - (a) the name of any altered area or electoral ward;
 - (b) the total number of councillors, the apportionment of councillors among electoral wards, the assignment of existing councillors to new or altered electoral wards and the first election of councillors for any new or altered electoral ward;
 - (c) the holding of a fresh election of councillors for all electoral wards in the local government area in question;
 - (d) the order of retirement of councillors for an electoral ward;
 - (e) the constitution, election to and membership of any public body in any area or electoral ward affected by the order;
 - (f) any of the matters described in section 41(2).
- (3) Provision of the type described in subsection (2)(c) may only be made in consequence of a change to the electoral arrangements for an area made following a review under Chapter 3.
- (4) An order made by the Welsh Ministers under section 37 or 43 may apply or modify any enactment or charter.
- (5) Nothing in this section prejudices the generality of section 71 (orders and regulations).
- (6) In this section—

“councillor” means an elected member of a local authority;

“public body” includes—

 - (a) a local authority,

- (b) unrhyw ymddiriedolwyr, comisiynwyr neu bersonau eraill sydd, at ddibenion cyhoeddus ac nid er eu budd eu hunain, yn gweithredu o dan unrhyw ddeddfiad neu offeryn er mwyn gwella unrhyw fan, cyflenwi dŵr i unrhyw fan, neu ddarparu neu gynnal mynwent neu farchnad mewn unrhyw fan, ac
 - (c) unrhyw awdurdod arall a chanddo bwerau i godi neu ddyroddi praesept ar gyfer unrhyw ardreth at ddibenion cyhoeddus,
- ystyr “cynghorydd” yw aelod etholedig awdurdod lleol.

41 Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol gyffredinol

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol neu drosiannol sy'n angenrheidiol neu'n hwylus yn eu barn hwy at ddibenion rhoi effaith lawn i orchmynion a wneir o dan adran 37, 38, 39 neu 43 neu mewn cysylltiad â hynny.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch—
 - (a) swyddogaethau, ardal neu awdurdodaeth mewn neu dros ardal (neu ran o ardal) unrhyw gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus o fewn ardal (neu ward etholiadol) y mae gorchymyn a wneir o dan y Rhan hon yn effeithio arni;
 - (b) costau a threuliau corff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus y mae'r cyfryw orchymyn yn effeithio arnynt;
 - (c) trosglwyddo staff cyrff cyhoeddus neu swyddi cyhoeddus yr effeithir arnynt;
 - (d) trosglwyddo, rheoli neu warchod eiddo (boed yn eiddo tirol neu'n eiddo personol) a throsglwyddo hawliau a rhwymedigaethau;
 - (e) trosglwyddo achosion cyfreithiol.
- (3) Caniateir i'r rheoliadau o dan yr adran hon gymhwyso neu addasu unrhyw ddeddfiad neu siarter.
- (4) Nid oes dim yn yr adran hon yn rhagfarnu cyffredinolrwydd adran 71 (gorchmynion a rheoliadau).
- (5) Yn yr adran hon, mae i “corff cyhoeddus” yr un ystyr ag yn adran 40(6).

42 Trosglwyddo staff

Rhaid i orchymyn o dan adran 37, 38, 39 neu 43 neu, yn ôl y digwydd, reoliadau o dan adran 41 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddo staff gynnwys darpariaeth i sicrhau—

- (a) bod person a drosglwyddir i gyflogwr newydd yn aros ar delerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rhai yr oedd y person yn ddarostyngedig iddynt cyn iddo drosglwyddo hyd nes bod y person—
 - (i) yn gadael cyflogaeth y cyflogwr newydd, neu
 - (ii) yn cael datganiad ysgrifenedig sy'n cyfeirio at y gorchymyn neu'r rheoliadau ac sy'n pennu telerau ac amodau cyflogaeth newydd, a

- (b) any trustees, commissioners or other persons who, for public purposes and not for their own profit, act under any enactment or instrument for the improvement of any place, for the supply of water to any place, or for providing or maintaining a cemetery or market in any place, and
- (c) any other authority having powers of levying or issuing a precept for any rate for public purposes.

41 General consequential and transitional provision

- (1) The Welsh Ministers may by regulations make such incidental, consequential, supplemental or transitional provision as they consider necessary or expedient for the purposes of, or in connection with, giving full effect to orders made under section 37, 38, 39 or 43.
- (2) Regulations under this section may, in particular, make provision about –
 - (a) the functions, area or jurisdiction in or over an area (or part of an area), of any public body or office within an area (or electoral ward) affected by an order made under this Part;
 - (b) the costs and expenses of a public body or office affected by such an order;
 - (c) the transfer of staff of affected public bodies or offices;
 - (d) the transfer, management or custody of property (whether real or personal) and the transfer of rights and liabilities;
 - (e) the transfer of legal proceedings.
- (3) Regulations under this section may apply or modify any enactment or charter.
- (4) Nothing in this section prejudices the generality of section 71 (orders and regulations).
- (5) In this section, “public body” has the same meaning as it has in section 40(6).

42 Transfers of staff

An order under section 37, 38, 39 or 43 or, as the case may be, regulations under section 41 which makes provision about the transfer of staff must include provision to secure that –

- (a) a person who is transferred to a new employer remains on terms and conditions not less favourable than those to which the person was subject prior to the transfer until such time as the person –
 - (i) leaves the employment of the new employer, or
 - (ii) is served with a statement in writing referring to the order or regulations and specifying new terms and conditions of employment, and

- (b) ar yr amod bod y person yn cyflawni dyletswyddau sy'n rhesymol debyg i'r rhai yr oedd yn eu cyflawni yn union cyn y trosglwyddo, nad yw unrhyw delerau ac amodau newydd a bennir mewn hysbysiad o dan baragraff (a)(ii) yn llai ffafriol na'r rhai a oedd gan y person cyn y trosglwyddo.

43 Amrywio a dirymu gorchymynion

- (1) Ac eithrio fel y mae'r adran hon yn darparu ar ei gyfer, ni chaniateir amrywio na dirymu gorchymynion a wneir o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor drwy orchymyn amrywio neu ddirymu –
 - (a) unrhyw ddarpariaeth mewn gorchymyn a wneir o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39 y disgrifir ei math yn adran 40(2);
 - (b) unrhyw ddarpariaeth debyg mewn gorchymyn a wneir o dan adran 67 (trefniadau canlyniadol a throsiannol) neu a wneir yn rhinwedd adran 255 (trosglwyddo swyddogion) yn Neddf 1972.
- (3) Ac eithrio fel y darperir yn is-adrannau (4) a (5), dim ond y personau neu'r corff a wnaeth y gorchymyn sy'n cynnwys y ddarpariaeth sydd i'w hamrywio neu i'w dirymu ("y gorchymyn gwreiddiol") a gaiff wneud gorchymyn i amrywio neu ddirymu darpariaeth o'r math a ddisgrifir yn is-adran (2).
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan yr adran hon pan fo'r gorchymyn gwreiddiol –
 - (a) wedi ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac y bo'n ymwneud â Chymru, neu
 - (b) wedi ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998).
- (5) Caiff prif gyngor wneud gorchymyn o dan yr adran hon pan fo'r gorchymyn gwreiddiol wedi ei wneud gan gyngor a'i rhagflaenodd ac nad yw'n bodoli mwyach.
- (6) Ond dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud ag ardal y prif gyngor y caiff gorchymyn a wneir yn unol ag is-adran (5) amrywio neu ddirymu darpariaeth yn y gorchymyn gwreiddiol.
- (7) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, y prif gyngor gydymffurfio ag is-adrannau (8) a (9).
- (8) Rhaid i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, y prif gyngor –
 - (a) anfon copi o'r drafft o'r gorchymyn i unrhyw awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus y mae'r gorchymyn yn debygol o effeithio arno yn eu barn hwy neu yn ei farn ef,
 - (b) cyhoeddi'r gorchymyn drafft mewn modd sy'n debygol, yn eu barn hwy neu yn ei farn ef, o'i ddwyn i sylw personau a chanddynt fuddiant yn y gorchymyn o bosibl,
 - (c) sicrhau bod copi o'r gorchymyn drafft ar gael i bersonau a chanddynt fuddiant edrych arno yn y manau hynny sy'n briodol yn eu barn hwy neu yn ei farn ef, a
 - (d) gwahodd sylwadau mewn perthynas â'r gorchymyn drafft o fewn y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau ar y dyddiad cyhoeddi o dan baragraff (b).

- (b) provided the person is engaged in duties reasonably similar to those held immediately prior to the transfer, any new terms and conditions that are specified in a notice under paragraph (a)(ii) are not less favourable than those the person had prior to the transfer.

43 Variation and revocation of orders

- (1) Other than as provided for by this section, orders made under this section or section 37, 38 or 39 may not be varied or revoked.
- (2) The Welsh Ministers, the Commission or, as the case may be, a principal council may by order vary or revoke—
 - (a) any provision contained in an order made under this section or section 37, 38 or 39 which is of a type described in section 40(2);
 - (b) any similar provision contained in an order made under section 67 (consequential and transitional arrangements) or made by virtue of section 255 (transfer of officers) of the 1972 Act.
- (3) Except as provided for in subsections (4) and (5), an order to vary or revoke provisions of the type described in subsection (2) may be made only by the persons who, or body which, made the order containing the provision to be varied or revoked (“the original order”).
- (4) The Welsh Ministers make make an order under this section where the original order—
 - (a) was made by the Secretary of State and relates to Wales, or
 - (b) was made by the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998).
- (5) A principal council may make an order under this section where the original order was made by a predecessor council which no longer exists.
- (6) But an order made in pursuance of subsection (5) may vary or revoke provision in the original order only in so far as it relates to the principal council’s area.
- (7) Before making an order under subsection (2) the Welsh Ministers, the Commission or, as the case may be, the principal council must comply with subsections (8) and (9).
- (8) The Welsh Ministers, the Commission or, as the case may be, the principal council must—
 - (a) send a copy of a draft of the order to any local authority or public body they or it consider likely to be affected by the order,
 - (b) publish the draft order in such manner as they or it consider likely to bring it to the attention of persons who may have an interest in the order,
 - (c) secure that a copy of the draft order is available for inspection by interested persons at such places as they or it consider appropriate, and
 - (d) invite representations in relation to the draft order within the period of 2 months beginning on the date of publication under paragraph (b).

- (9) Rhaid i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, y prif gyngor ystyried unrhyw sylwadau sy'n dod i law o fewn y cyfnod o 2 fis a chânt addasu'r gorchymyn yng ngoleuni'r sylwadau hynny.
- (10) Pan fo Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor yn fodlon bod camgymeriad wedi digwydd wrth lunio gorchymyn o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39 caiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu'r prif gyngor, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth y maent hwy neu y mae ef o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn cywiro'r camgymeriad hwnnw.
- (11) Yn is-adran (10) mae "camgymeriad", mewn perthynas â gorchymyn, yn cynnwys darpariaeth a gynhwysir yn y gorchymyn neu a hepgorir ohono gan ddibynnu ar wybodaeth anghywir neu anghyflawn a roddir gan unrhyw gorff cyhoeddus.
- (12) Ni chaiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor arfer y pŵer yn is-adran (10) mewn perthynas â gorchymyn a wneir gan rywun arall.
- (13) Yn yr adran hon, mae i "corff cyhoeddus" yr un ystyr ag yn adran 40(6).

Cytundebau rhwng cyrff cyhoeddus i ymdrin â newid

44 Cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid

- (1) Caniateir i unrhyw gorff cyhoeddus y mae newid ardal, diddymu neu gyfansoddi ardal neu ward etholiadol drwy orchymyn o dan adran 37, 38, 39 neu 43 neu drwy orchymyn o dan adran 162 o Fesur 2011 (pŵer i wneud gorchymyn cyfuno) yn effeithio arno, ymrwymo mewn cytundeb â chorff cyhoeddus arall yr effeithir arno ynghylch—
 - (a) unrhyw eiddo, incwm, hawliau neu rwymedigaethau y mae'r newid yn effeithio arnynt;
 - (b) unrhyw berthynas ariannol rhwng y partïon i'r cytundeb;
 - (c) unrhyw dreuliau y mae'r partïon yn mynd iddynt sy'n codi o ganlyniad i'r newid.
- (2) Caiff cytundeb o dan yr adran hon ddarparu—
 - (a) ar gyfer trosglwyddo neu gadw unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, gydag amodau neu hebddynt, ac ar gyfer defnyddio unrhyw eiddo ar y cyd;
 - (b) ar gyfer gwneud taliadau mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddir neu a gedwir, neu ar gyfer y defnydd hwnnw ar y cyd, ac mewn cysylltiad â'r tâl neu'r digollediad sy'n daladwy i unrhyw berson;
 - (c) ar gyfer gwneud unrhyw daliad o'r fath drwy swm cyfalaf neu flwydd-dal terfynadwy.
- (3) Pan na fo partïon yn gallu dod i gytundeb ar unrhyw fater, rhaid cyfeirio'r mater i gael ei gymrodeddu gan un cymrodeddwr y cytunir arno gan y partïon neu, os na cheir y cyfryw gytundeb, a benodir gan Weinidogion Cymru.
- (4) Caiff dyfarniad y cymrodeddwr ddarparu ar gyfer unrhyw fater y caiff cytundeb o dan yr adran hon ddarparu ar ei gyfer.
- (5) Caniateir i unrhyw swm y mae'n ofynnol i gorff cyhoeddus ei dalu gael ei dalu—
 - (a) o'r gronfa neu'r ardreth y telir treuliau cyffredinol y corff cyhoeddus ohoni, neu
 - (b) o unrhyw gronfa neu ardreth arall y caiff y corff cyhoeddus benderfynu arni.
- (6) Yn yr adran hon, mae i "corff cyhoeddus" yr un ystyr ag yn adran 40(6).

- (9) The Welsh Ministers, the Commission or, as the case may be, the principal council must consider any representations received within the 2 month period and may modify the order in light of such representations.
- (10) Where the Welsh Ministers, the Commission or, as the case may be, a principal council is satisfied that a mistake has occurred in the preparation of an order under this section or sections 37, 38 or 39 the Welsh Ministers, the Commission or the principal council may by order make such provision as they or it consider necessary or expedient to rectify the mistake.
- (11) In subsection (10), “mistake”, in relation to an order, includes a provision contained in or omitted from the order in reliance on information supplied by any public body which is inaccurate or incomplete.
- (12) The Welsh Ministers, the Commission or, as the case may be, a principal council may not exercise the power in subsection (10) in relation to an order made by someone else.
- (13) In this section, “public body” has the same meaning as it has in section 40(6).

Agreements between public bodies to deal with change

44 Transitional agreements as to property and finance

- (1) Any public body affected by the alteration, abolition or constitution of an area or electoral ward by an order under section 37, 38, 39 or 43 or by an order under section 162 of the 2011 Measure (power to make amalgamation order) may enter into an agreement with another affected public body about –
 - (a) any property, income, rights or liabilities affected by the change;
 - (b) any financial relationships between the parties to the agreement;
 - (c) any expenses of the parties arising in consequence of the change.
- (2) An agreement under this section may provide –
 - (a) for the transfer or retention of any property, rights and liabilities, with or without conditions, and for the joint use of any property;
 - (b) for the making of payments in respect of any property, rights or liabilities transferred or retained, or of such joint use, and in respect of the remuneration or compensation payable to any person;
 - (c) for the making of any such payment by way of a capital sum or terminable annuity.
- (3) Where the parties cannot reach agreement on any matter, the matter is to be referred to the arbitration of a single arbitrator agreed on by the parties or, failing such agreement, appointed by the Welsh Ministers.
- (4) The arbitrator’s award may provide for any matter for which an agreement under this section may provide.
- (5) Any sum which requires to be paid by a public body may be paid –
 - (a) out of the fund or rate from which the general expenses of the public body are paid, or
 - (b) out of such other fund or rate as the public body may determine.
- (6) In this section, “public body” has the same meaning as it has in section 40(6).

PENNOD 6**DARPARIAETH ARALL SY'N BERTHNASOL I FFINIAU AWDURDODAU LLEOL****45 Newid ardal heddlu**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Comisiwn yn cynnal adolygiad o un neu ragor o brif ardaloedd o dan adran 23.
- (2) Yn ogystal â'r newidiadau y caniateir eu hargymell o dan adran 23(3) caiff y Comisiwn, mewn cysylltiad ag unrhyw newid i ffin prif ardal, argymell unrhyw newidiadau i ardal neu ardaloedd heddlu (gan gynnwys newidiadau sy'n arwain at leihad neu gynydd yn nifer ardaloedd heddlu) sy'n briodol yn ei farn ef.
- (3) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl cael adroddiad sy'n cynnwys argymhellion gan y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad a gynhelir o dan adran 23—
 - (a) drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, weithredu unrhyw argymhellion i newid ardal heddlu, gydag addasiadau neu hebddynt,
 - (b) os yw'n bwriadu gweithredu'r argymhellion gydag addasiadau, gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad pellach o dan adran 23 o'r prif ardaloedd hynny y mae'r argymhellion yn effeithio arnynt a bennir yn y cyfarwyddyd, neu
 - (c) penderfynu peidio â gweithredu mewn cysylltiad â'r argymhellion.
- (4) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan is-adran (3)(b).
- (5) Caniateir i orchymyn a wneir o dan yr adran hon gynnwys—
 - (a) darpariaeth i gomisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu y mae'r gorchymyn yn effeithio arni ddod yn gomisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu sy'n deillio o'r gorchymyn,
 - (b) darpariaeth i gynnal etholiad am gomisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer unrhyw ardal heddlu sy'n deillio o'r gorchymyn,
 - (c) unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol neu drosiannol sy'n angenrheidiol neu'n hwylus ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol.
- (6) Caiff gorchymyn sy'n cynnwys darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (5)(b) ei gwneud yn ofynnol i'r etholiad dan sylw gael ei gynnal cyn i'r newid i ardaloedd heddlu gael effaith.
- (7) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon gymhwyso neu addasu unrhyw ddeddfiad neu siarter.
- (8) Ni chaiff gorchymyn a wneir o dan yr adran hon ddarparu i brif ardal gael ei rhannu rhwng 2 neu ragor o ardaloedd heddlu.
- (9) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan y adran hon nes bod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr argymhellion wedi dod i ben.

46 Rhychwant ffiniau tua'r môr

- (1) Mae unrhyw ran o lannau'r môr i farc y distyll yn ffurfio rhan o'r gymuned neu'r cymunedau y mae'n cydffinio â hi neu â hwy gan gyfateb i gyfran rhychwant y ffin gyffredin.

CHAPTER 6

OTHER PROVISION RELEVANT TO LOCAL AUTHORITY BOUNDARIES

45 Police area change

- (1) This section applies where the Commission is conducting a review of one or more principal areas under section 23.
- (2) In addition to the changes which may be recommended under section 23(3) the Commission may, in connection with any principal area boundary change, recommend such changes to a police area or areas (including changes resulting in a reduction or increase in the number of police areas) as it considers appropriate.
- (3) The Secretary of State may, after receiving a report containing recommendations from the Commission in relation to a review conducted under section 23—
 - (a) by order made by statutory instrument implement any recommendations for change to a police area, with or without modification,
 - (b) if proposing to implement the recommendations with modification, direct the Commission to carry out a further review under section 23 of such principal areas affected by the recommendations as may be specified in the direction, or
 - (c) decide to take no action in respect of the recommendations.
- (4) The Commission must comply with a direction under subsection (3)(b).
- (5) An order made under this section may include—
 - (a) provision for the police and crime commissioner for a police area affected by the order to become the police and crime commissioner for a police area resulting from the order,
 - (b) provision for the holding of an election for the police and crime commissioner for any police area resulting from the order,
 - (c) such incidental, consequential, supplemental or transitional provision as the Secretary of State considers necessary or expedient.
- (6) An order including provision of the kind mentioned in subsection (5)(b) may require the election in question to be held before the alteration of the police areas takes effect.
- (7) An order under this section may apply or modify any enactment or charter.
- (8) An order made under this section may not provide for a principal area to be divided between 2 or more police areas.
- (9) No order may be made under this section until the expiry of a period of 6 weeks beginning with the date on which the Secretary of State receives the recommendations.

46 Extent of seaward boundaries

- (1) Any part of the sea-shore to the low water-mark forms part of the community or communities which it adjoins in proportion to the extent of the common boundary.

- (2) Mae pob croniant o'r môr (boed yn naturiol neu'n artiffisial) yn ffurfio rhan o'r gymuned neu'r cymunedau y mae'n cydffinio â hi neu â hwy gan gyfateb i gyfran rhychwant y ffin gyffredin.
- (3) Mae pob croniant neu ran o lannau'r môr sy'n ffurfio rhan o gymuned o dan yr adran hon hefyd yn ffurfio rhan o'r brif ardal a'r sir wedi ei chadw lle y mae'r gymuned.

47 Newid ffin yn dilyn newid cwrs dŵr

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cwrs dŵr yn ffurfio llinell ffin rhwng dwy neu ragor o ardaloedd llywodraeth leol.
- (2) Os newidir y cwrs dŵr, drwy arfer unrhyw bŵer a roddwyd gan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (p. 57), Deddf Draenio Tir 1991 (p. 59) neu unrhyw ddeddfiad arall, mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio ar ei gymeriad fel llinell ffin, rhaid i'r person y gwneir y newid o dan ei awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru am y newid cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio llinell ffin y mae hysbysiad a roddir o dan is-adran (2) yn ymwneud â hi drwy roi llinell ffin newydd (boed a yw'n cynnwys yn gyfan gwbl neu'n rhannol linell y cwrs dŵr fel y'i newidiwyd) yn lle cymaint o linell y ffin honno ag a oedd ar linell y cwrs dŵr cyn y newid.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (3).
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn y modd sy'n briodol yn eu barn hwy, gyhoeddi hysbysiad o unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon.
- (6) At ddibenion yr adran hon, mae cyfeiriad at ardal lywodraeth leol yn cynnwys cyfeiriad at sir wedi ei chadw.

PENNOD 7

DARPARIAETH AMRYWIOL

48 Cyfarwyddiadau a chanllawiau ynghylch Rhan 3

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.
- (2) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn –
 - (a) i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon (gan gynnwys, pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion iddynt, adolygiadau pellach),
 - (b) i beidio â chynnal adolygiad o dan adran 28 yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,
 - (c) i gynnal adolygiad o dan adran 29 ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd (o fewn ystyr adran 171 o Fesur 2011) fel pe bai'n ardal llywodraeth leol,
 - (d) i gynnal yr adolygiadau sy'n ofynnol o dan adran 29(1) mewn trefn wahanol i'r hyn a gynigir gan y Comisiwn mewn unrhyw raglen gyfredol ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol a lunnir yn unol â'r adran honno,
 - (e) i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.

- (2) Every accretion from the sea (whether natural or artificial) forms part of the community or communities which it adjoins in proportion to the extent of the common boundary.
- (3) Every accretion or part of the sea-shore forming a part of a community under this section also forms part of the principal area and preserved county in which the community is situated.

47 Boundary change following alteration of water-course

- (1) This section applies where a water-course forms a boundary line between two or more local government areas.
- (2) If, in the exercise of any power conferred by the Water Resources Act 1991 (c. 57), the Land Drainage Act 1991 (c. 59) or any other enactment, the water-course is altered in any way which affects its character as a boundary line, the person under whose authority the alteration is made must as soon as reasonably practicable give the Welsh Ministers notice of the alteration.
- (3) The Welsh Ministers may, by order, vary a boundary line to which a notice given under subsection (2) relates by substituting a new boundary line (whether or not consisting wholly or in part of the line of the water-course as altered) for so much of that boundary line as, before the alteration, lay along the line of the water-course.
- (4) The Welsh Ministers must consult the Commission before making an order under subsection (3).
- (5) The Welsh Ministers must, in such manner as they consider appropriate, publish notice of any order made under this section.
- (6) For the purposes of this section, a reference to local government area includes a reference to a preserved county.

CHAPTER 7

MISCELLANEOUS PROVISION

48 Directions and guidance relating to Part 3

- (1) The Welsh Ministers may give the Commission directions relating to the exercise of its functions under this Part.
- (2) In particular, the Welsh Ministers may direct the Commission—
 - (a) to conduct a review under this Part (including, where the Commission has made recommendations or proposals to them, further reviews),
 - (b) not to conduct a review under section 28 during a period specified in the direction,
 - (c) to conduct a review under section 29 for a new local government area (within the meaning of section 171 of the 2011 Measure) as if it were a local government area,
 - (d) to conduct the reviews required under section 29(1) in a different order from that proposed by the Commission in any current programme for electoral arrangements reviews prepared in accordance that section,
 - (e) to have regard to such particular matters as may be specified in the direction when conducting a review.

- (3) Nid yw is-adran (1) yn cyfyngu ar y pŵer cyfarwyddo cyffredinol o dan adran 14.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i brif gyngor sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.
- (5) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor –
 - (a) i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,
 - (b) i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.
- (6) Rhaid i brif gyngor gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (4).
- (7) Caniateir i gyfarwyddiadau o dan yr adran hon ymwneud ag adolygiad penodol, math o adolygiad neu bob adolygiad.
- (8) Ond cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn perthynas ag adolygiad o brif ardal neu ei threfniadau etholiadol (neu adolygiadau o brif ardaloedd neu eu trefniadau etholiadol yn gyffredinol), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw gymdeithas yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli awdurdodau lleol.
- (9) Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

49 Ymchwiliadau lleol

- (1) Caiff y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor, beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal mewn cysylltiad ag unrhyw adolygiad a gynhelir ganddo o dan y Rhan hon.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal mewn cysylltiad â gorchymyn drafft a lunnir o dan adran 43.
- (3) Caiff person a benodir i gynnal ymchwiliad drwy wŷs ei gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol ar adeg ac mewn man a bennir yn y wŷs –
 - (a) i roi tystiolaeth, neu
 - (b) i gyflwyno unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw fater dan sylw a ddelir gan y person neu sydd o dan reolaeth y person.
- (4) Caiff person a benodir i gynnal ymchwiliad gymryd tystiolaeth ar lw ac at y diben hwnnw caiff weinyddu llwon.
- (5) Rhaid talu unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol i berson y mae'n ofynnol iddo fod yn bresennol o dan is-adran (3).
- (6) Er gwaethaf is-adran (3)(b), ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol i berson gyflwyno teitl (neu unrhyw offeryn sy'n ymwneud â theitl) unrhyw dir nad yw'n perthyn i awdurdod lleol.
- (7) Mae person yn cyflawni trosedd os bydd y person –
 - (a) yn gwrthod cydymffurfio â gofyniad gwŷs a gyflwynir i'r person o dan is-adran (3) neu'n methu'n fwriadol â chydymffurfio â gofyniad o'r fath,
 - (b) yn newid, atal, cuddio neu ddinistrio'n fwriadol unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol i'r person ei chyflwyno o dan yr adran hon.

- (3) Subsection (1) does not limit the general power of direction under section 14.
- (4) The Welsh Ministers may give a principal council directions relating to the exercise of its functions under this Part.
- (5) In particular, the Welsh Ministers may direct a principal council to—
 - (a) conduct a review under section 25 or 31,
 - (b) have regard to such particular matters as may be specified in the direction when conducting a review.
- (6) A principal council must comply with a direction given by the Welsh Ministers under subsection (4).
- (7) Directions under this section may relate to a particular review, a type of review or to all reviews.
